Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
28/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
14/05/2024

# Hygyrchedd ymgysylltiad democrataidd:

## adolygiad tystiolaeth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron Rhif Llyfr Safonol Rhyngwladol Digidol 978-1-83625-026-5

**Hygyrchedd ymgysylltiad democrataidd:**
Adolygiad tystiolaeth

Joseph Healy, Prifysgol Caerdydd, ar interniaeth PhD gyda Llywodraeth Cymru.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Healy, J. (2024) *Hygyrchedd ymgysylltiad democrataidd: Adolygiad tystiolaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad rhif GSR 28/2024.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/hygyrchedd-ymgysylltiad-democrataidd-yng-nghymru-adolygiad-tystiolaeth

Rhai'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 10
3. Rhwystrau i system etholiadol hygyrch ........ 12
4. Addasiadau ac ymyriadau i wella hygyrchedd ........ 26
5. Diwygio etholiadol ........ 38
6. Casgliadau ........ 40
7. Argymhellion ........ 47
8. Cyfeiriadau ........ 49

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r adolygiad tystiolaeth hwn yn archwilio hygyrchedd y broses ddemocrataidd yng Nghymru ac yn awgrymu mesurau i’w gwella, gan ddefnyddio tystiolaeth o genhedloedd cymaradwy eraill, yn y DU ac yn rhyngwladol.

1.2 Prif amcanion yr adolygiad hwn yw:

- nodi’r rhwystrau sy’n wynebu dinasyddion sy’n ymgysylltu â phrosesau democrataidd megis etholiadau yng Nghymru;
- Gwella’r ddealltwriaeth o gymhlethdod materion sy’n effeithio ar bobl anabl o ran ymgysylltu democrataidd;
- Cydgasglu llenyddiaeth ddomestig a rhyngwladol i gyfrannu tuag at ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar hygyrchedd etholiadau a all arwain ymchwil yn y pwnc yn y dyfodol; a
- Defnyddio’r dystiolaeth hon i ddarparu argymhellion ar gyfer gwelliannau i’r broses ddemocrataidd.

1.3 Mae’n cyflawni’r amcanion hyn drwy:

- Gynnal dadansoddiad o lenyddiaeth o feysydd polisi a’r byd academaidd sy’n ymwneud â hygyrchedd prosesau democrataidd;
- Lleoli hygyrchedd proses ddemocrataidd Cymru mewn llenyddiaeth ehangach ar anabledd ac ymgysylltu democrataidd; a
- Nodi enghreifftiau o arferion da, yn y DU ac yn rhyngwladol.

**System etholiadol y DU**

1.4 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno newidiadau i system etholiadol y DU drwy’r Ddeddf Etholiadau, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022. Mae’r Ddeddf yn cynnwys mesurau sydd â’r nod o wella diogelwch, hygyrchedd a thryloywder etholiadau a’r ffordd y mae pobl yn pleidleisio ac yn ymgyrchu, a’r rheolau ar wariant a chyllid ymgyrchu. Mae’r newidiadau yn y Ddeddf yn berthnasol i etholiadau Senedd y DU, etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr, ac etholiadau lleol yn Lloegr. Bydd rhai darpariaethau yn

berthnasol i etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon ac etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon.

1.5 Bydd y mesurau a gynhwysir yn y Ddeddf yn:

- Newid y rheolau fel y gall pobl wneud cais am bleidlais drwy'r post neu bleidlais drwy ddirprwy ar-lein drwy system ar-lein newydd ar gyfer pleidleiswyr absennol. Gall ymgeiswyr ddefnyddio'r platfform ar-lein yn rhan o'r broses cofrestru i bleidleisio neu, i'r rhai sydd eisoes wedi cofrestru, fel cyflwyniad ar-lein arunig. Bydd y mesurau hyn yn cyflwyno mesurau diogelu rhag cam-drin pleidleisio drwy'r post;
- Cyflwyno adnabyddiaeth ffotograffig ar gyfer pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr;
- Newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau maerol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i system y Cyntaf i'r Felin, sy'n golygu bod yr ymgeisydd sy'n ennill y nifer mwyaf o bleidleisiau ym mhob etholaeth yn cael ei ethol;
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddarparu offer arbenigol i bleidleiswyr anabl i'w cefnogi i bleidleisio os oes angen, a chaniatáu i unrhyw un dros 18 oed fynd gyda phleidleiswyr anabl yn yr orsaf bleidleisio;
- Dileu'r terfyn o 15 mlynedd ar ddinasyddion Prydeinig dramor yn etholiadau Senedd y DU, gan ganiatáu i unrhyw ddinesydd Prydeinig sydd wedi cofrestru'n flaenorol neu sy'n preswylio yn y DU gofrestru i bleidleisio;
- Cyflwyno cosb etholiadol newydd i'r rhai a fernir yn euog o frawychu ymgeisydd, ymgyrchydd neu ddeiliad swydd etholedig. Byddai'r gosb yn gwahardd troseddwyr rhag sefyll mewn etholiad am bum mlynedd, yn ogystal â'r gosb am y drosedd sylfaenol a all gynnwys dirwy neu garchar, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y brawychiad;
- Diweddaru dylanwad amhriodol i gynnwys ystod eang o niwed, megis trais corfforol, difrod i eiddo neu enw da rhywun, anaf a phwysau ysbrydol amhriodol, neu beri colled ariannol;

- Diweddaru'r fframwaith rheoleiddio cyllid gwleidyddol, drwy gynyddu tryloywder, tegwch, a chryfhau rheolaethau yn erbyn gwariant tramor anghymwys ar ymgyrchu etholiadol;
- Cyflwyno trefn argraffnodau digidol newydd a fydd yn mynd yn llawer pellach na'r drefn argraffnodau wedi'u hargraffu, gan gynyddu tryloywder a grymuso pleidleiswyr i wneud penderfyniadau gwybodus am y deunydd y maent yn ei weld ar-lein.

**Diwygiadau etholiadol yng Nghymru**

1.6 Datganolwyd y cyfrifoldeb am etholiadau llywodraeth cenedlaethol a lleol i Gymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2017. Ers hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi dechrau rhaglen ddiwygio etholiadol a nodir fwyaf gan estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol. Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 hefyd yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diwygio etholiadol yn y dyfodol, yn enwedig o ran cofrestru awtomatig a'r defnydd dewisol o Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy mewn etholiadau llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud Rheolau sy'n nodi sut y byddai etholiadau lleol yn gweithredu o dan Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Mae gan gynghorau yng Nghymru tan fis Tachwedd 2024 i benderfynu a ddylid newid i Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf yn 2027.

1.7 Trwy gydol yr agenda ddiwygio, daeth yn amlwg bod hygyrchedd etholiadau yn fater sydd angen sylw a daeth swyddogion yn ymwybodol o nifer o rwystrau a wynebir gan etholwyr, yn benodol pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol gan gynnwys pobl anabl.

1.8 Yn unol â hynny, mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ('y Bil') a gyflwynwyd i'r Senedd ym mis Hydref 2023 yn cynnig ymrwymiadau pellach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer moderneiddio a diwygio etholiadau Cymru, a chynyddu'r nifer sy'n cyfranogi mewn etholiadau yng Nghymru. Mae'r dogfennau ategol i'r Bil hefyd yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd ym mhob agwedd ar ei gwaith. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau i gael

gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag gallu cyfranogi'n llawn yn y broses etholiadol.

1.9 Mae'r Bil a'r pecyn diwygio ehangach yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd â'r nod o wella hygyrchedd i bobl anabl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pwerau newydd sy'n caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ychwanegu etholwyr cymwys at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru, heb fod angen i'r unigolyn gyflwyno cais;
- dyletswydd newydd ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar y camau a gymerir gan Swyddogion Canlyniadau i gynorthwyo pobl anabl yn eu gallu i bleidleisio yn etholiadau y Senedd ac mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (hefyd, bydd dyletswyddau newydd arfaethedig mewn is-ddeddfwriaeth ar Swyddogion Canlyniadau i ddarparu offer fel y bo'n rhesymol i gefnogi pobl anabl i bleidleisio, gan ystyried canllawiau'r Comisiwn Etholiadol);
- creu platfform gwybodaeth am etholiadau Cymru—sef cyfleuster electronig sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i etholwyr am sut i gofrestru neu fwrw eu pleidlais, neu am ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiadau y Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru, a'u cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth etholiadol eraill y gellir ymddiried ynddynt;
- cynyddu cyfleoedd i grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol chwarae rhan lawn wrth gefnogi a chynrychioli eu cymunedau drwy sefyll am swydd etholedig, gan adeiladu ar gynllun peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru Llywodraeth Cymru[1].

**Cefndir i'r ymchwil**

1.10 Mae'r ymchwil hon yn dilyn adroddiadau amrywiol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi mynd i'r afael â mater ymgysylltu democrataidd, yn ogystal â phapurau eraill sy'n manylu ar y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu mewn bywyd

[1] Cafodd cynllun peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru ei weithredu er mwyn ariannu addasiadau a chefnogaeth resymol i ymgeiswyr anabl sy'n ceisio cael eu hethol i Etholiad Senedd Cymru 2021 a sefyll ar gyfer y 22 Prif Gyngor a'r 735 Cyngor Cymuned yn etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

cyhoeddus, er mai anaml y mae'r rhain wedi eu hymblethu. Rhan o nod yr ymchwil hon yw uno'r ddau linyn ymchwil hyn.

1.11 Er enghraifft, canfu adolygiad o'r dystiolaeth ar 'Adnewyddu Democrataidd' a gynhaliwyd yn 2019 i gefnogi diwygio etholiadol ar gyfer llywodraeth leol (Hunt a Nickson, 2019) nad oes gan bobl anabl gyfleoedd cyfartal i bleidleisio o'u cymharu â gweddill poblogaeth Cymru ac awgryma sawl diwygiad etholiadol posibl a allai wella hygyrchedd a nifer y bobl sy'n pleidleisio.

1.12 Noda'r adroddiadau ymchwil hyn a gwaith archwilio ychwanegol ar ymgysylltu democrataidd a gynhaliwyd yn 2020 (Beaufort Research, 2020) nad y broses bleidleisio yw'r prif rwystr rhag cyfranogi yng Nghymru, ac mai cynnyrch materion ehangach megis diffyg gwybodaeth canfyddedig, datgysylltiad â gwleidyddiaeth a diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddion yw'r niferoedd isel cyson sy'n pleidleisio. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn nodi, er bod yr agweddau hyn yn wir ar draws demograffeg, fod materion hygyrchedd a diffyg gwybodaeth am y broses bleidleisio yn debygol effeithio rhywfaint ar y duedd i gyfranogi.

1.13 Mae adroddiad 'Drws ar Glo' 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021) yn darparu adolygiad cynhwysfawr o effaith pandemig COVID-19 ar bobl anabl, ac am y sefyllfa ehangach hygyrchedd ym mywyd cyhoeddus Cymru dros gyfnod y pandemig a thu hwnt. Mae'r canlyniadau yn dangos bod y mesurau a gymerwyd i ymdrin â'r pandemig wedi arwain at bobl anabl yn colli annibyniaeth a chymerwyd cam yn ôl o ran eu hawliau i bob pwrpas. Mae'n pwysleisio ymhellach y ffaith mai ôl-ystyriaeth wrth lunio polisïau yw ystyried bywydau pobl anabl yn aml, ac mai diystyrwch, yn hytrach na malais neu wahaniaethu gweithredol yw achos sylfaenol hyn.

1.14 Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Peixoto G. et al., 2022) yn casglu tystiolaeth am newidiadau i weinyddiaeth etholiadol. Mae'r adroddiad yn awgrymu, ymhlith pethau eraill, y gallai diwygiadau etholiadol amrywiol, megis pleidleisio cynnar ac ehangu'r moddau pleidleisio o bell, fod o fudd o ran gwella hygyrchedd a chynyddu nifer y bobl sy'n pleidleisio.

1.15 Yn ogystal â'i hagenda ar gyfer diwygio, mae gan Lywodraeth Cymru sawl ymrwymiad deddfwriaethol sy'n berthnasol i hyn yn yr adolygiad hwn. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ei hun wedi ymrwymo i ymgorffori Confensiwn y

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru. Fel cytundeb hawliau dynol rhyngwladol ar hawliau anabledd sy'n gyfreithiol rwymol, mae'r Confensiwn yn mynnu, yn Erthygl 29, y gwarentir i bobl anabl [Saesneg yn unig)] "political rights and an opportunity to enjoy them on an equal basis with others". Mae Erthyglau 9 a 21 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i lofnodwyr sicrhau hygyrchedd llawn at wybodaeth gyhoeddus, gan ddarparu addasiadau priodol at y diben hwn (Lord et al., 2014).

1.16 Noda Teglbjaerg (2021) fod bodolaeth barhaus rhwystrau i gyfranogiad democrataidd mewn awdurdodaethau, megis Cymru, lle mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wedi ei gadarnhau, yn gyfystyr â thorri'r Confensiwn, ac mae felly'n groes i hawliau dynol pobl anabl. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig drwy gael gwared ar y rhwystrau hyn.

1.17 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a'r nod llesiant am 'Cymru fwy cyfartal' sydd ynddi, yn pennu bod yn rhaid ymdrechu i gynyddu amrywiaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar draws bywyd cyhoeddus. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (2020) yn nodi bod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud yn hyn o beth, ond bod yn rhaid mynd yn llawer pellach o hyd. Hefyd, mae Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021 yn rhoi dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i sicrhau, yn y broses o wneud penderfyniadau strategol, fod angen rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anfanteision economaidd-gymdeithasol.

1.18 Bydd yr adolygiad tystiolaeth hwn yn cynorthwyo i gyflawni'r ymrwymiadau hyn drwy ei gyfraniad at ddatblygu sylfaen wybodaeth ynghylch pobl anabl ac anghydraddoldeb mewn prosesau democrataidd.

**Model cymdeithasol o anabledd**

1.19 Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithredu'r model cymdeithasol o anabledd yn 2002. Mae'r model cymdeithasol yn ystyried bod anabledd wedi ei strwythuro gan gymdeithas, yn hytrach na'r model meddygol mwy cyffredin, sy'n fframio anabledd fel rhywbeth sy'n gynhenid i'r unigolyn a/neu ei amhariad. Yn hytrach, mae'r model

cymdeithasol o anabledd yn cydnabod bod anabledd yn deillio o’r rhwystrau a osodir yn ffordd pobl ag amhariadau a chyflyrau iechyd, hynny yw bodolaeth y rhwystrau hyn sy’n anablu, a thrwy gael gwared ar rwystrau o’r fath neu ddarparu addasiadau rhesymol i’w goresgyn y gellir dileu anabledd ei hun. Mae’r model cymdeithasol yn canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud os yw’r rhwystrau’n cael eu dileu, yn hytrach na’r hyn na allant ei wneud oherwydd eu gwahaniaethau.

1.20 Felly, cyfeirir at yr unigolion hynny sydd dan anfantais oherwydd bodolaeth barhaus rhwystrau cymdeithasol fel ‘pobl anabl’, yn hytrach na ‘phobl ag anableddau’, a bydd yr adroddiad hwn yn glynu’n gyson at y geiriad hwn, yn ogystal â defnyddio’r termau ‘amhariadau’ a ‘chyflyrau’ yn hytrach nag ‘anableddau’ i ddisgrifio iechyd unigolion.

1.21 Er eu bod yn sylfaenol i ddeall ac ehangu hygyrchedd, mae llawer o’r llenyddiaeth a’r ddeddfwriaeth a nodir yma yn defnyddio termau gwahanol yr ymddengys eu bod yn cael eu llywio gan y model meddygol o anabledd. Pan fo hynny’n bosibl, addesir yr iaith a ddefnyddir gan yr astudiaethau hyn drwy’r adolygiad hwn fel ei bod yn cydweddu â’r termau a ddefnyddir gan y model cymdeithasol. Er enghraifft, cafodd y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl, a ddyfynnir trwy’r adolygiad hwn gan ddefnyddio terminoleg y model cymdeithasol, ei ddrafftio’n wreiddiol—a chyfeirir ato yn aml mewn llenyddiaeth o hyd—fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, neu Gonfensiwn ar Hawliau Pobl Anabl.

1.22 Y tu hwnt i’r rhwymedigaethau cyfreithiol y manylir arnynt uchod, dylai ymrwymiad datganedig Llywodraeth Cymru i’r model cymdeithasol o anabledd roi ysgogiad ychwanegol i’r broses o gael gwared ar rwystrau ar draws ein cymdeithas, gan gynnwys mewn prosesau democrataidd.

**Strwythur**

1.23 Yn dilyn y bennod ragarweiniol hon, amlinella Adran 2 y fethodoleg a ddefnyddir i gasglu a dadansoddi tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad presennol. Aiff ati i ddisgrifio natur gyfyngedig y prosiect ac effaith hyn wrth ei gymhwyso neu fel arall at drafodaethau polisïau ehangach.

1.24 Mae Adran 3 yn dechrau trafod canfyddiadau'r adolygiad. Mae'n edrych ar y rhwystrau sy'n atal gallu cyfartal i gymryd rhan mewn etholiadau a phrosesau democrataidd, gan ddechrau gyda'r rhwystrau cymdeithasol ehangach y mae pobl anabl yn eu hwynebu a'u gorgyffyrddiad â materion gallu i gymryd rhan mewn etholiadau, ac mae'n symud at drafod y materion gallu i gymryd rhan benodol ym mhroses ddemocrataidd Cymru. Yna mae Adran 4 yn symud ymlaen at fynd i'r afael ag amrywiaeth o addasiadau a diwygiadau etholiadol sydd wedi dod i'r amlwg o lenyddiaeth rhyngwladol a domestig, gyda'r bwriad o gael gwared ar y rhwystrau a drafodir. Mae Adran 5 yn ystyried effeithiau posibl unrhyw newidiadau i brosesau etholiadol yng Nghymru, yn seiliedig yn rhannol ar enghreifftiau o ymyriadau o'r fath mewn lleoedd eraill.

1.25 Mae Adran 6 yn trafod canfyddiadau yr adolygiad tystiolaeth ac mae Adran 7 yn nodi argymhellion yr adroddiad ar gyfer llunwyr polisïau yng Nghymru.

## 2. Methodoleg

2.1 Er mwyn cael dealltwriaeth eang o faterion sy'n ymwneud â hygyrchedd etholiadau, cynhaliwyd adolygiad tystiolaeth o'r llenyddiaeth sydd ar gael, gan gwmpasu deunydd academaidd a deunydd sy'n cyfeirio at bolisïau. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl i gynnwys amrywiaeth o enghreifftiau rhyngwladol, yn ogystal â thrafodaeth fanwl ar y rhwystrau a'r gwelliannau posibl i gyfranogiad democrataidd yng Nghymru. Darparwyd gwybodaeth atodol ychwanegol gan dimau polisi ar draws Llywodraeth Cymru hefyd a alluogodd ddealltwriaeth lawn o'r materion allweddol sy'n cael eu harchwilio.

2.2 Mae'r wybodaeth a gesglir yn gwyro oddi wrth ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun a'i nod o gyflwyno amrywiaeth o astudiaethau achos a dadansoddiadau cymaradwy sy'n mynd i'r afael â'r materion hygyrchedd sy'n wynebu pobl anabl wrth iddynt gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau yn y DU gan y Comisiwn Etholiadol a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, grwpiau eiriolaeth a llenyddiaeth academaidd. Ceir enghreifftiau rhyngwladol eraill o'r Unol Daleithiau, Awstralia a sawl gwladwriaeth Ewropeaidd. Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo i ddefnyddio'r astudiaethau hyn i argymell gwelliannau i'r broses ddemocrataidd yng Nghymru, gan gwmpasu addasiadau i'r system bleidleisio bresennol a diwygio etholiadol ehangach, a mynd i'r afael ag effeithiau posibl unrhyw newidiadau o'r fath.

2.3 Defnyddiwyd meddalwedd dadansoddi data ansoddol MAXQDA i drefnu, codio a dadansoddi'r llenyddiaeth. Datblygwyd strwythur yr adroddiad hwn a llawer o'i ganfyddiadau cyffredinol drwy drefnu'r data yn thematig, sydd wedi caniatáu themâu cyffredin i gael eu nodi, o ran rhwystrau i gymryd rhan mewn etholiadau a'u hatebion posibl.

### Cyfyngiadau

2.4 Mae nifer o gyfyngiadau yn yr adolygiad hwn y dylid rhoi cyfrif amdanynt o'r cychwyn cyntaf. Ei anfantais fawr yw prinder ac anghysondeb tystiolaeth ar y berthynas rhwng anabledd ac etholiadau, yng Nghymru a thu hwnt, sy'n arwain at yr adolygiad hwn yn bod yn dameidiog mewn rhai meysydd. Mae angen mwy o

ymchwil i lenwi'r bylchau hyn, ac ymdrinnir â'r manylion yn yr adrannau diweddarach.

2.5 O ganlyniad i'r uchod yn rhannol, mae'r adolygiad yn cynnwys cryn dipyn o ymchwil gan rai cymaryddion rhyngwladol (e.e., UDA), ond mae llawer llai o enghreifftiau, neu ddim o gwbl, gan eraill. Mae llawer o'r rhai sy'n ymddangos yn gadael o fannau cychwyn hollol wahanol ynghylch gweinyddu a deddfwriaeth etholiadol o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, ac felly mae'n anodd gwneud rhagdybiaethau cywir am effeithiau ymyriadau polisi tebyg wrth eu cymhwyso i gyd-destun Cymreig.

2.6 Unwaith eto, oherwydd diffyg gwybodaeth swyddogol ac ymchwil fanwl ar y pwnc yng Nghymru, cyfyngir tystiolaeth ar hygyrchedd e.e. gorsafoedd pleidleisio i adroddiadau arsylwadol ac, o'r herwydd, efallai na fydd yn gwbl gadarn.

2.7 Dyfaliadol yw llawer o'r atebion arfaethedig (yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â diwygio etholiadol). Bydd angen cwmpasu a phrofi pellach arnynt drwy gynlluniau peilot er enghraifft, cyn y gellir eu hasesu'n llawn ar gyfer eu heffeithiau posibl. Hefyd yn aml, mae'r dystiolaeth yn amhendant ar rai syniadau polisi o'r fath, yn anad dim oherwydd bod llawer ohonynt yn cario anfanteision negyddol posibl, ac eto oherwydd diffyg tystiolaeth, ni ellir eu dadansoddi'n llawn.

2.8 Fel darn o ymchwil ar ymgysylltu democrataidd ehangach, nid yw'r ymchwil hwn yn gallu darparu tystiolaeth wirioneddol am fesurau sy'n debygol o wella'r nifer sy'n pleidleisio. Fe'i defnyddir yn well fel llinell sylfaen ar gyfer gwella hygyrchedd, gyda'r posibilrwydd y bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n pleidleisio yn sgil-effaith cadarnhaol posibl, ac, os yw hyn yn wir, gallai'r gwelliant yn y nifer sy'n pleidleisio weithredu fel dangosydd hygyrchedd gwell (er nad hyn yw'r unig ddangosydd o bell ffordd).

# 3. Rhwystrau i system etholiadol hygyrch

### Rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol

3.1 Mae ymchwil a wnaed yn yr Unol Daleithiau ac yn Ewrop ar gyfranogiad gwleidyddol pobl anabl yn ystod y degawdau diwethaf wedi canfod bod nifer y pleidleiswyr yn is ymhlith pobl anabl na phobl nad ydynt yn anabl, ac yn fwy felly ymhlith y rhai a oedd yn hŷn, yn dlotach neu ag amhariadau gwybyddol ac anhawsterau dysgu (Schur et al., 2002; Priestley, 2016). Mae astudiaethau yn yr Unol Daleithiau wedi dangos bod pobl anabl ar gyfartaledd yn adrodd lefelau is o effeithiolrwydd gwleidyddol mewnol ac allanol (Gastil, 2000; Schur et al., 2003) ac hefyd yn llai tebygol o ystyried bod y system wleidyddol yn ymatebol iddynt (Mattila a Papageorgiou, 2016).

3.2 Dengys dadansoddiad data o'r Iseldiroedd, lle mae gan bron i un o bob wyth dinesydd anabledd hirdymor fod pobl ag amhariadau corfforol a dysgu yn profi nifer enwedig o isel sy'n pleidleisio (Van Hees, Boeije a de Putter 2019). Yn ogystal, nododd data o Arolwg Cymdeithasol Ewrop (ESS) fod pobl anabl a oedd yn teimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn hyd yn oed yn llai tebygol o bleidleisio na'r rhai nad oeddent yn teimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn ((Mattila a Papageorgio 2016; Reher 2018; Johnson a Powell, 2019).

3.3 Canfu astudiaeth Grammenos (2013) a oedd hefyd yn defnyddio data ESS i ymchwilio i weithgaredd pleidleisio ymhlith pobl anabl yn Ewrop wahaniaeth o wyth pwynt canran rhwng dinasyddion anabl a dinasyddion nad ydynt yn anabl. Cafwyd hyd i'r cyfraddau pleidleisio isaf yn y grŵp o bobl anabl ymhlith y rhai sy'n ddi-waith ac ymhlith dinasyddion hŷn.

3.4 Mae'r patrwm hwn o niferoedd isel yn pleidleisio ymhlith pobl anabl yn nodwedd a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn aml cyfeirir ato yn y llenyddiaeth fel y 'bwlch anabledd' yn y nifer sy'n pleidleisio (Teglbjærg et al., 2022). Fe'i siapir gan ystod o ffactorau sy'n ymwneud ag adnoddau a recriwtio, a dyna pam mae'r llenyddiaeth academaidd a'r llenyddiaeth am bolisïau yn pwysleisio ar wella hygyrchedd i'r broses etholiadol ac ymwybyddiaeth o'r broses etholiadol (Atkinson et al., 2017).

3.5 Er gwaethaf datblygu a gweithredu deddfwriaeth yn ystod y degawdau diwethaf gan roi effaith i'r Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl, mae'r bwlch hwn wedi aros yn fawr oherwydd 'effeithiau cyfunol a rhyngweithiol anhygyrchedd, ynysu cymdeithasol, llai o adnoddau economaidd, a chanfyddiadau bod y system wleidyddol yn anymatebol' (Schur ac Adya, 2013; Priestley, 2016)

3.6 Mae'r Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl yn ei gwneud yn ofynnol i wladwriaethau gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod pleidleiswyr anabl yn gallu arfer eu hawliau yn ymarferol. Felly, mae Erthygl 9 o'r confensiwn yn amodi bod mesurau hygyrchedd yn cael eu cymryd er mwyn hwyluso mynediad corfforol, a'r gallu i gyfathrebu ac i gael gwybodaeth, ac mae pob un ohonynt yn bwysig o ran galluogi cyfranogiad gwleidyddol ymhlith pobl anabl. Yng nghyd-destun Erthygl 29, er enghraifft, byddai angen fformatau hygyrch i hwyluso pleidleisio cynhwysol ymhlith pleidleiswyr dall neu bleidleiswyr sydd â nam ar eu golwg, a byddai angen dileu rhwystrau corfforol y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ei hun yn ogystal ag ar y ffordd i'r orsaf bleidleisio (Lord et al., 2014). Mae gan hyn oblygiadau clir i wladwriaethau wrth sicrhau cyfranogiad gwleidyddol ymhlith pobl anabl, drwy sicrhau hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio, peiriannau pleidleisio, cyfathrebu drwy'r cyfryngau a'r rhyngrwyd, deunydd ymgyrchu, cyfarfodydd cyhoeddus neu hyfforddiant addas i swyddogion yr etholiad (Priestley, 2016).

3.7 Fodd bynnag, ni ddylid drysu rhwng llai o debygolrwydd o bleidleisio a llai o ddiddordeb neu ymgysylltiad gwleidyddol. Mae ymchwil yn awgrymu mewn gwirionedd fod pobl anabl yr un mor ymgysylltiol â materion gwleidyddol â'r boblogaeth gyffredinol, os nad yn fwy felly, er gwaethaf eu cyfraddau pleidleisio is.

3.8 Gall siomedigaeth â'r system wleidyddol, er enghraifft, annog rhai mathau o weithgareddau gwleidyddol. Mae iechyd gwael yn cymell pobl i gymryd rhan mewn camau sy'n uniongyrchol berthnasol i'w hanghenion yn aml, megis cymryd rhan mewn gwrthdystiadau sy'n gysylltiedig â pholisïau gofal iechyd cyhoeddus annigonol, neu gysylltu â gwleidyddion i geisio effeithio ar benderfyniadau sy'n mynd i wasanaethau iechyd lleol (Mattila, 2022). Canfu'r astudiaeth arloesol gan Söderlund a Rapeli (2015), ymhlith dinasyddion Nordig, y gall iechyd gwael ysgogi pobl i gyfranogi. Gall iechyd gwael ddwysáu pwysigrwydd gwleidyddiaeth i unigolion

oherwydd bod polisïau llesiant, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal iechyd a throsglwyddiadau, yn dod yn bwysicach i bobl sydd â phroblemau iechyd (Mattila, 2022).

3.9 Mae gan bobl anabl yr hawl i'r un gallu i ddefnyddio'r broses ddemocrataidd â phobl nad ydynt yn anabl, ni waeth a yw hyn yn effeithio ar y nifer sy'n pleidleisio. Fodd bynnag, gellid defnyddio gwelliannau yn y nifer sy'n pleidleisio mewn ymchwil fel dangosydd o lwyddiant polisi. Mae mynd i'r afael â'r bwlch anabledd hefyd yn amcan mewn llawer o ymyriadau ac, o'r herwydd, ystyrir gostyngiad yn y bwlch anabledd neu ddilead y bwlch anabledd yn arwydd cadarnhaol o effeithiolrwydd newidiadau o'r fath wrth wella hygyrchedd prosesau democrataidd.

3.10 Fodd bynnag, ni ellir mesur hygyrchedd ei hun yn ôl nifer y bobl sy'n pleidleisio neu nodweddion y pleidleiswyr hyn yn unig. Yn hytrach, mae'n werth nodi bod yr ymchwil ar hygyrchedd etholiadau yn mynd ymhell y tu hwnt i edrych ar fynediad i orsafoedd pleidleisio. Mae angen ei ystyried bod rhwystrau amrywiol o ddydd i ddydd sydd y tu hwnt i gylch gwaith yr ymchwil hwn (e.e. tai, gofal, trafnidiaeth, gwybodaeth anhygyrch ac ati) yn debygol o effeithio ar allu pobl anabl i ddefnyddio'r holl wasanaethau ac amwynderau cyhoeddus. Felly, mae angen deialog barhaus gyda dinasyddion a grwpiau eiriolaeth er mwyn sicrhau nad oes neb sy'n dymuno cyfranogi yn cael ei atal na'i ddigalonni rhag gwneud hynny oherwydd anhygyrchedd y system ddemocrataidd ei hun.

3.11 Mae canfyddiadau adroddiad 'Drws ar Glo' gan Lywodraeth Cymru yn dangos y ffyrdd y newidiodd bywydau pobl anabl yn ystod cyfnod pandemig COVID-19. Amlygodd yr adroddiad lawer o arwyddion pryderus am ddirywiad ansawdd bywydau pobl a'u gallu i ddefnyddio gwasanaethau sylfaenol yn ystod y cyfnod hwn, ond signalau calonogol bach hefyd ynghylch y defnydd cynyddol o dechnoleg ymhlith pobl anabl, er mwyn defnyddio technoleg ac atebion o bell ar gyfer tasgau bob dydd yn ogystal â chynnal cysylltiadau cymdeithasol a lliniaru unigrwydd. Felly mae angen rhagor o ymchwil i archwilio'r ffordd y mae'r pandemig wedi newid neu ddylanwadu ar arferion bob dydd ac arferion pleidleisio pobl anabl.

**Rhwystrau yn y broses gweinyddu etholiadol**

3.12 Mae sawl agwedd ar weinyddu etholiadol a allai effeithio'n andwyol ar nifer y bobl sy'n pleidleisio, o blith pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Mae pleidleiswyr anabl yn wynebu nifer o rwystrau posibl i gyfranogi yn wleidyddol o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl, gan gynnwys diffyg gallu i gael gwybodaeth; heriau logistaidd yn ymwneud â lleoliad yr orsaf bleidleisio a'i hagosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau parcio hygyrch; problemau yn yr orsaf bleidleisio ei hun; ac anawsterau â'r profiad o bleidleisio.

*Rhwystrau i gael gafael ar wybodaeth*

3.13 Ymhlith y cyhoedd, nid yw camddealltwriaeth o'r broses bleidleisio yn fater mawr, neu o leiaf nid yw'n rhywbeth sy'n cael effaith sylweddol ar y nifer sy'n pleidleisio. O ran gwybodaeth, yr hyn sy'n atal rhai pobl rhag pleidleisio yw diffyg gwybodaeth ynghylch pam y dylent bleidleisio a sut i wneud penderfyniad. Mae pobl anabl yn wynebu amrywiaeth o rwystrau rhag cael gafael ar bob math o wybodaeth, gan ddibynnu ar natur eu hamhariad neu eu cyflwr.

3.14 Mae llawer o'r rhwystrau rhag ymgysylltu democrataidd yn deillio o ddiffyg gallu i gael gafael ar wybodaeth. Mae hwn yn gategori eang ac mae'n cynnwys yr wybodaeth a ddarperir wrth gofrestru pleidleiswyr a'r broses o bleidleisio (cyn yr etholiad ac yng nghanol yr etholiad, e.e., mewn gorsafoedd pleidleisio), llenyddiaeth etholiad (gan awdurdodau etholiadol yn ogystal â phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr), darllediadau ar y cyfryngau a gwefannau, ac addysg ddinesig ehangach ar lythrennedd ac ymwybyddiaeth wleidyddol.

3.15 Amlygodd ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol yn ystod etholiad cyffredinol 2017 y DU (Y Comisiwn Etholiadol, 2017) nifer sylweddol o faterion sy'n wynebu pleidleiswyr anabl. Mae pobl anabl yn defnyddio ac yn dibynnu ar nifer o ddulliau i ganfod sut i gofrestru a phleidleisio, gan gynnwys ffynonellau cyffredinol megis papurau newydd, teledu, llywodraeth allweddol a gwefannau cyhoeddus eraill sy'n berthnasol i gyfranogiad gwleidyddol. Hefyd, i lawer, mae dibyniaeth ar adnoddau mwy pwrpasol megis gweithwyr cymorth a chanllawiau Hawdd eu Deall.

3.16 Mae'r gallu i gael gafael ar gyfathrebiadau'r cyfryngau torfol yn hanfodol i wybodaeth gwleidyddol gwybodus, ond mae angen dulliau cyfathrebu hygyrch i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cyfranogi (yn nodedig ar gyfer pobl anabl sydd ag amhariadau synhwyraidd neu wybyddol). Mae hybu hygyrchedd gwybodaeth yn un o'r rhwymedigaethau sydd gan wladwriaethau o dan Erthygl 9 y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl yn y fframwaith llywodraethu byd-eang. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Priestley (2016) ar gyfranogiad gwleidyddol pobl anabl yn Ewrop yn awgrymu mai dim ond yn hanner (14) Aelod-wladwriaethau yr UE a arolygwyd yn rhan o'r ymchwil lle'r oedd darparwyr darlledu cyhoeddus a phreifat yn ddarostyngedig i safonau hygyrchedd statudol i ddarparu is-deitlau, dehongliad drwy iaith arwyddion a/neu ddisgrifiadau sain ar gyfer eu rhaglennu cyfan neu ran ohonynt.

3.17 Hefyd, archwiliodd yr astudiaeth sampl o wefannau allweddol y llywodraeth a gwefannau cyhoeddus eraill er mwyn asesu eu hygyrchedd i bobl anabl a chanfuwyd mewn o leiaf chwe Aelod-wladwriaeth yr UE (y Weriniaeth Tsiec, Lithwania, Malta, Gwlad Pwyl, Sbaen a Sweden) fod yr wefan a oedd yn darparu gwybodaeth ar sut i gwyno am dor hawliau pleidleisio yn cyrraedd safonau hygyrchedd gwe a dderbynnir yn rhyngwladol (safonau WCAG 2.0 AA[2]). Yn y Ffindir, roedd gwefan yr Ombwdsmon Seneddol yn darparu gwybodaeth am iawndal mewn iaith arwyddion, fel y gwnaeth gwefan y Canghellor Cyfiawnder. Yn y rhan fwyaf o wledydd, fodd bynnag, dim ond yn rhannol hygyrch oedd gwybodaeth bwysig ar y we a dim ond 10 gwlad oedd yn cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer darparu cyfarwyddiadau ar bleidleisio a gwybodaeth am ymgeiswyr ar brif wefan yr adran sy'n gyfrifol am drefnu etholiadau (er bod rhai mesurau hygyrchedd wedi eu gweithredu mewn 12 gwlad arall) (Priestley, 2016).

3.18 Yn gyffredinol, mae problem o ran y gallu i gael gwybodaeth etholiad mewn fformatau sydd wedi eu haddasu'n briodol. Mae hyn yn cynnwys fersiynau hawdd eu deall a darluniedig; print bras; sain a fideo; llenyddiaeth ar gael mewn lliwiau

[2] Set o argymhellion ar gyfer gwella hygyrchedd ar y we a gydnabyddir yn rhyngwladol yw Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (a elwir yn WCAG). Maent yn esbonio sut i wneud gwasanaethau digidol, gwefannau ac apiau yn hygyrch i bawb, gan gynnwys defnyddwyr sydd ag amhariadau ar eu golwg, eu clyw, eu symudedd, eu meddwl a'u dealltwriaeth.

heblaw du a gwyn; fersiynau braille a chyffyrddol; iaith arwyddion; a thestun electronig. Dengys yr ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol ar ôl yr etholiad cyffredinol ym mis Mehefin 2017 ar brofiadau pobl anabl o bleidleisio nad oedd rhai pleidleiswyr yn gwybod bod fformatau amgen o gyfarwyddiadau a gwybodaeth, megis y rhai a ddarperir mewn print bras, ar gael (Y Comisiwn Etholiad, 2017).

3.19 Hyd yn oed pan gynigiwyd fformatau hygyrch, megis dogfennau Hawdd eu Deall, mae angen gofyn amdanynt neu maent ar gael yn hwyrach na fformatau eraill yn aml, sy'n gadael y rhai y mae angen y fersiynau hyn arnynt gyda llai o amser nag eraill i dreulio'r wybodaeth. Amlygwyd hyn fel mater penodol mewn cysylltiad â llenyddiaeth megis maniffestos a luniwyd gan bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr (Swyddfa'r Cabinet, 2007), a nododd nifer o sefydliadau anabledd, er eu bod yn annog ymgeiswyr a phleidiau i lunio'r dogfennau hygyrch, eu bod ar gael yn hwyrach na chyhoeddiad y maniffesto safonol yn aml. Roedd hyn yn golygu llai o amser i bobl allu deall y polisïau arfaethedig. Mae cael gwybodaeth gyfyngedig mewn fformatau hygyrch oddi wrth bleidiau gwleidyddol yn ogystal â diffyg cyswllt â gweithwyr y pleidiau, yn cyflwyno heriau penodol i bobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl wrth iddynt gyfranogi yn y broses ddemocrataidd (Swyddfa'r Cabinet, 2017).

3.20 Nid oes gan bobl anabl wybodaeth ddigonol am sut i ddod o hyd i gymorth ychwanegol pe byddai angen hynny arnynt, yn enwedig ar ddiwrnod pleidleisio. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ble a sut i bleidleisio, ond hefyd lle gallent ddod o hyd i orsaf bleidleisio dawelach, neu rywun a allai gynnig cefnogaeth foesol neu ymarferol pan maent yn pleidleisio. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan y Comisiwn Etholiadol (Y Comisiwn Etholiadol, 2017) er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod y gallent bleidleisio, nid oedd rhai yn ymwybodol eu bod yn cael mynd â rhywun gyda nhw i'w cynorthwyo mewn gorsaf bleidleisio, neu y gallai staff gorsafoedd pleidleisio eu helpu nhw. Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai pleidleiswyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i rywun a allai fynd gyda nhw i'r orsaf bleidleisio, yn enwedig o ystyried y gofyniad bod yn rhaid i'r sawl sy'n eu cynorthwyo fod yn rhywun sydd â hawl i bleidleisio neu'n aelod agos o'r teulu.

3.21 Noda ymchwil a archwiliodd safbwyntiau pobl anabl ag amhariadau gwybyddol ac anhawsterau dysgu ar eu profiad o bleidleisio yn etholiadau cyffredinol 2017 a 2019 y DU (Manteklow et al., 2023) fod cyfranogwyr wedi cael cynnig cefnogaeth, neu gael cefnogaeth, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cymorth â gwybodaeth etholiadol, cymorth gorsaf bleidleisio, cymorth â'u dewis pleidlais, cymorth hybu pleidleisiau, gwybodaeth am bleidleisio drwy'r post a chymorth â ffurflen gofrestru. Roedd yn gyffredin i gyfranogwyr dderbyn sawl math o gymorth, a chafodd dros hanner y rhai a gyfwelwyd dri math gwahanol o gymorth.

3.22 Cymorth â gwybodaeth etholiadol oedd y math mwyaf cyffredin o gymorth a ddarparwyd; roedd hyn yn cynnwys esboniadau llafar, eglurhad, dadansoddi gwybodaeth gymhleth a/neu gymorth i ddod o hyd i wybodaeth. Roedd mathau llai cyffredin o gymorth yn cynnwys cymorth â'u dewis pleidlais (cyngor gan deulu a chyfeillion yn nodweddiadol), cymorth hybu pleidleisiau (gan gynnwys teuluoedd yn annog pleidleisio ac yn mynd i gyfarfod hybu pleidleisiau) ac esboniadau llafar ynghylch pleidleisio drwy'r post a ffurflenni cofrestru (Manktelow et al., 2023). Gwerthusodd bron i bob cyfranogwr a dderbyniodd gymorth hyn yn gadarnhaol. Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod cefnogaeth yn bwysig oherwydd hebddi, ni fyddent wedi pleidleisio/deall gwybodaeth etholiadol.

3.23 Mynegodd rhai o'r cyfranogwyr a bleidleisiodd yn etholiad cyffredinol 2017 y DU bryderon ynghylch cael gafael ar wybodaeth etholiadol ynghylch gorsafoedd pleidleisio a'r broses wleidyddol, gan ddweud bod gormod o wybodaeth neu nad oeddent yn gallu deall gwybodaeth. Cafodd gwybodaeth etholiadol ei beirniadu'n gyson gan dros hanner y cyfranogwyr, ac fe'i disgrifiwyd gan lawer fel gwybodaeth dryslyd, annefnyddiol, annibynadwy, rhagfarnllyd, anniddorol, anodd ei chofio, a oedd yn canolbwyntio'n ormodol ar feirniadu pleidiau/gwleidyddion eraill, a oedd yn cynnwys jargon ac mewn fformatau a oedd yn anodd cael gafael arnynt. Dywedodd rhai cyfranogwyr ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth etholiadol, ac roedd eraill a lwyddodd i ddod o hyd i ddeunydd yn dweud eu bod wedi dod o hyd i lawer iawn o wybodaeth, yr oedd y rhan fwyaf ohoni yn anodd ei deall a'i chofio (Manktelow, 2023). Nododd rhai ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo'n rhy nerfus yn aml i siarad ag ymgeiswyr er mwyn canfod mwy.

3.24 O ran y broses gofrestru, mae ymchwil wedi awgrymu bod rhai pleidleiswyr anabl ag amhariadau gwybyddol yn canfod y ffurflen gofrestru, y fersiwn ar-lein a'r copi caled, yn anodd ei deall oherwydd ei bod yn cynnwys gormod o jargon ac nid yw'r ffont a ddefnyddir yn rhwydd ei ddarllen (Y Comisiwn Etholiadol, 2017).

3.25 Amlygodd ymchwil a gynhaliwyd gan Capability Scotland (2003) yn dilyn Etholiad Senedd yr Alban ac Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2003, a oedd yn cynnwys adolygu a sgorio hygyrchedd sampl o ffurflenni cofrestru pleidleiswyr, nifer o faterion gyda'r broses gofrestru. Methodd pob un o'r ffurflenni cofrestru a adolygwyd â bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer maint ffont, sy'n golygu nad oeddent yn hygyrch i bobl ag amhariad ar eu golwg a'u bod yn anodd eu darllen i lawer o bobl ag anawsterau dysgu neu sgiliau llythrennedd gwael. Hefyd, roedd dyluniad a chynllun y ffurflenni'n amrywio, ac er bod y rhan fwyaf ohonynt wedi mabwysiadu fformat a oedd wedi ei gynllunio'n dda, roedd ychydig ohonynt yn anniben â gwybodaeth ac roedd y mannau a oedd ar gael ar gyfer mewnosod manylion wedi eu hysgrifennu â llaw yn rhy fach. Gwelwyd bod hyn yn peri problem benodol i bobl anabl sy'n cael trafferth ysgrifennu; er ei bod yn bosibl eu bod wedi gallu darllen yr wybodaeth, ni fyddent wedi gallu cwblhau'r ffurflen heb gymorth.

3.26 Yn ogystal, nid yw'r opsiwn o gofrestru i bleidleisio ar-lein yn ymarferol neu'n bosibl i rai pobl anabl. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Grŵp Bancio Lloyds yn 2021 ar Sgiliau Digidol Hanfodol, a fesurodd y tasgau digidol sylfaenol sydd eu hangen i gael mynediad i'r byd ar-lein, yn ogystal â'r sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer bywyd, yn amlygu maint y rhwystrau digidol sy'n wynebu llawer o bobl anabl a phobl ag amhariadau gwybyddol. Nododd yr adroddiad nad oes gan oddeutu traean (32%) o bobl ag amhariad hyd yn oed y sgiliau digidol mwyaf sylfaenol, a bod pobl ag amhariadau lluosog yn wynebu'r risg fwyaf o allgáu digidol (Good Things Foundation, 2024).

3.27 Nodwyd cardiau pleidleisio yn aml hefyd fel problem i bleidleiswyr anabl, yn enwedig y rhai sydd ag amharaiadau golwg. Amlygodd adolygiad o brofiadau pobl anabl wrth gofrestru i bleidleisio ac o bleidleisio yn Lloegr yn 2017 (Swyddfa'r Cabinet, 2018) nifer o faterion, gyda phobl ddall a phobl rhannol ddall yn dweud nad oeddent yn adnabod cardiau pleidleisio ymhlith eitemau eraill o bost. Nodwyd hefyd

fod angen cymorth arnynt i ddarllen y cardiau oherwydd bod yr wybodaeth yn anodd ei darllen yn aml oherwydd maint y ffont a swm yr wybodaeth a gyflwynwyd. Amlygodd ymchwil y Comisiwn Etholiadol (2017) bryderon tebyg mewn cysylltiad â chardiau pleidleisio a ddosbarthwyd i bleidleiswyr, gyda phobl anabl yn nodi nifer o faterion gyda'r cardiau, gan gynnwys print sy'n rhy fach, y defnydd o eiriau du ar bapur gwyn sy'n ei gwneud yn anodd eu darllen, ac yn aml roedd y ffurflenni'n cynnwys geiriau anghyfarwydd a jargon, a oedd yn eu gwneud yn anodd eu darllen a'u deall.

3.28 Mae ehangu'r gallu i gyfranogi yn y broses drwy wybodaeth a mentrau yn hanfodol, er mwyn sicrhau nad yw pob pleidleisiwr, yn enwedig pobl anabl, yn colli'r hawl i bleidleisio (Capability Scotland, 2003).

*Rhwystrau i bleidleisio yn y cnawd*

3.29 Mae'r ymchwil yn awgrymu bod gan bleidleiswyr anabl nifer o rwystrau posibl, a'u bod yn wynebu nifer o rwystrau posibl, i bleidleisio yn cnawd mewn gorsaf bleidleisio o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r rhain yn cynnwys problemau wrth ddod o hyd i neu fynd i'r lleoliad pleidleisio, cael mynediad i'r orsaf bleidleisio ei hun ac aros mewn ciw (Schur et al., 2017); darllen neu weld y papur pleidleisio a gweithio allan sut i bleidleisio; anawsterau â thechnoleg bleidleisio; a phrofiadau o swyddogion etholiadol sy'n elyniaethus neu'n anwybodus.

3.30 O ystyried ansymudedd symudedd a chyflyrau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd, gallai pobl anabl ei chael hi'n anodd dod dros amgylchedd eu gorsaf bleidleisio ddynodedig. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cyfuniad o faterion yn ymwneud â diffyg mynediad gwastad i'r orsaf bleidleisio ac offer megis rampiau dros dro i wella mynediad a osodwyd yn anghywir, ciwiau pleidleisio nad oes ganddynt seddi na chanllawiau, yn ogystal â llwybrau anhygyrch a diffyg parcio hygyrch, neu ddim parcio anabl o gwbl, y tu allan i orsafoedd pleidleisio i gyd wedi eu nodi fel rhwystrau presennol i fwrw pleidlais (Schur et al., 2017; Swyddfa'r Cabinet, 2018).

3.31 Mae pobl anabl yn canfod fod rhwystrau pan maent y tu mewn i'r orsaf bleidleisio hefyd, gyda nifer yn nodi eu bod yn dal i wynebu problemau o ran methu â mynd o gwmpas gorsafoedd pleidleisio a bod gormod o rwystrau. Amlygwyd fod y defnydd o neuaddau eglwys a chanolfannau cymunedol fel mannau pleidleisio yn enwedig o

broblemus. Roedd gan lawer o’r adeiladau hyn nodweddion na ellid eu haddasu’n rhwydd, er enghraifft, coridorau cul ac ystafelloedd bach, drysau caeëdig a chymysgedd o loriau carped a phren gydag ymylon rhwng pob math a oedd yn cyflwyno peryglon posibl i bobl ddall a phobl rhannol ddall, pobl mewn cadair olwyn a ag amhariadau symudedd (Capability Scotland, 2003).

3.32 Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod y profiad o bleidleisio yn enwedig o bwysig yng nghyd-destun pobl â chyflyrau iechyd meddwl, amhariadau gwybyddol ymddygiadol a phleidleiswyr niwroamrywiol sy’n canfod rhyngweithio ag awdurdodau a phrosesau ffurfiol yn syfrdanol ac yn straenus. Canfu Manteklow et al. (2023) fod y broses wleidyddol yn gwneud i gyfranogwyr deimlo’n ofnus ac yn ddigroeso, a bod gorsafoedd pleidleisio yn gwneud iddynt deimlo’n nerfus, yn bryderus, yn lletchwith ac yn ofnus. Mae llawer o bobl niwroamrywiol hefyd yn cael trafferth gyda thorfeydd a sŵn, ciwiau hir a bod mewn amgylchedd anghyfarwydd wrth bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio. Gall y rhwystrau y mae unigolion niwroamrywiol yn eu hwynebu mewn gorsafoedd pleidleisio traddodiadol wneud y profiad o bleidleisio yn straen, yn frawychus ac yn ddryslyd i lawer oherwydd nad ydynt yn gwybod beth i’w ddisgwyl pan fyddant yn cyrraedd, ac efallai y byddant yn profi gorbryder mewn cysylltiad â chiwiau (neu wrth ddisgwyl ciwiau) ar ddiwrnodau pleidleisio (Swyddfa’r Cabinet, 2018).

3.33 Gan fod pobl anabl angen mwy o amser yn yr orsaf bleidleisio ei hun yn aml oherwydd yr angen am ddarpariaethau, mae’r gofyniad i aros mewn llinellau hir yn disgyn yn anghymesur ar bobl anabl. Gall hyd yn oed amseroedd aros lleiaf i gymedrol fod yn broblem i bobl anabl â chyflyrau ac amhariadau iechyd meddwl sy’n ei chael hi’n annioddefol aros mewn ciwiau hir, ac efallai na fydd swyddogion a gwirfoddolwyr yn eu nodi fel rhai y mae angen cymorth arnynt. Hefyd, gallai wneud pleidleisio yn amhosibilrwydd i rai pobl sydd ag amhariadau megis eiddilwch corfforol neu henaint. Fel mae Belt (2016) yn nodi, mae ciwiau hir yn gwneud pleidleiswyr yn llai hyderus yn y broses bleidleisio ac yn llai hyderus y bydd eu pleidleisiau’n cyfrif.

3.34 Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod angen gwella'n sylweddol ar brosesau i sicrhau bod offer ac adnoddau priodol yn cael eu darparu i bleidleiswyr anabl mewn

gorsafoedd pleidleisio. Mae nifer o bleidleiswyr anabl wedi nodi problemau wrth ddarllen neu weld y papur pleidleisio; anawsterau gyda thechnoleg pleidleisio neu ddiffyg offer addas (Electoral Commission, 2017); a phrofiadau swyddogion etholiadol gelyniaethus neu anwybodus nad oeddent yn gwybod sut i ddefnyddio offer arbenigol neu nad oeddent yn ei gynnig i bobl a allai fod ei angen (Stanford, 2019).

3.35 Rhaid i bob gorsaf bleidleisio fod â dyfais bleidleisio gyffyrddadwy, sef templed plastig y gellir ei ailddefnyddio gyda Braille a rhifau uwch y gellir eu cysylltu â'r papur pleidleisio ac sydd wedi ei gynllunio i ganiatáu i bleidleiswyr dall a phleidleiswyr rhannol ddall bleidleisio'n annibynnol heb ddatgelu eu bwriad pleidleisio i drydydd parti. Datblygwyd y ddyfais yn wreiddiol ar y cyd â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall cyn Etholiad Cyffredinol 2001 lle y'i defnyddiwyd am y tro cyntaf i ddarparu cyfle i etholwyr sydd wedi colli eu golwg fwrw eu pleidlais ar eu pennau eu hunain, o'i chymharu â'r broses flaenorol lle'r oedd staff gorsafoedd pleidleisio neu gydymaith yn gwneud hynny ar eu rhan.

3.36 Mae ymateb yr RNIB i Call for Evidence on Access to Elections Llywodraeth y DU (Swyddfa'r Cabinet, 2018) yn nodi profiadau cymysg wrth weithredu'r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy , gyda llawer yn ystyried nad yw'r ddyfais yn addas i'r diben ac yn rhoi enghreifftiau ohoni heb fod ar gael, o'r fersiwn anghywir yn cael ei darparu ac o'r staff yn anwybodus ynghylch sut i'w defnyddio. Roedd pryder hefyd nad oedd y ddyfais yn aml yn ffitio'r papur pleidleisio'n gywir a doedd dim modd i etholwyr wybod eu bod wedi marcio'r papur pleidleisio yn y lle cywir. Roedd hyn yn enwedig o wir mewn etholiadau datganoledig gyda phapurau pleidleisio hir. Gallai gofyn i staff gadarnhau'r marc ddileu cyfrinachedd eu pleidlais (Swyddfa'r Cabinet, 2018).

3.37 Awgryma ymchwil a gynhaliwyd gan Capability Scotland yn 2003 fod y defnydd o'r ddyfais yn isel, er bod ei defnydd posibl yn cael ei estyn i grŵp llawer ehangach o bobl anabl yn etholiad Senedd yr Alban. Nid oedd yn glir pam na chafodd y ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy ei harddangos yn amlwg mewn gorsafoedd pleidleisio, nac yn wir pam na chafodd ei defnyddio gan bleidleiswyr anabl. Daeth gwirfoddolwyr a ymwelodd ag amrywiaeth o fannau pleidleisio o hyd i lawer o ddyfeisiau o dan

fyrddau, mewn bocsys a heb eu harddangos yn gyffredinol, a gododd gwestiynau ynghylch sut y byddai pleidleiswyr anabl yn gwybod eu bod ar gael heb ofyn amdanynt. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau ymchwil gan Belt (2016) sy'n pwysleisio efallai na fydd pleidleiswyr anabl yn gwybod y dylent ofyn am ddarpariaethau fel dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol os nad oes arwyddion yn nodi eu bod ar gael yn yr orsaf bleidleisio. Nododd cyfranogwyr hefyd fod y ddyfais yn drwsgl ac awgrymwyd y gallai deall sut mae'n gweithio a bod â'r deheurwydd i'w gweithio fod yn rhy anodd i lawer o bobl anabl. Felly, ni all pleidleiswyr dall a rhannol ddall ddibynnu ar y ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy ar ei ben ei hun bob amser fel addasiad rhesymol bob amser.

3.38 Adrodda ymchwil Capability Scotland (2003) hefyd nad oedd yn ymddangos bod llawer o orsafoedd pleidleisio â dolenni sain cludadwy ar gael i pleidleiswyr byddar a phleidleiswyr ag amhariad ar y clyw ynddynt ac felly fod y defnydd hefyd yn isel. Awgrymwyd y gallai'r lefel isel y maent ar gael ddeillio o'r ffaith mai mesur newydd ydyw—fel y gwelsom dros y blynyddoedd gyda bythau pleidleisio hygyrch, gall gymryd cyfres o etholiadau i greu mentrau anstatudol sydd ar gael yn eang. Nodwyd hefyd y gallai'r gost o dalu am y mesur hwn fod yn afresymol. Hefyd, nid yw dolenni sain cludadwy yn addas i bawb sydd ag amhariad ar eu clyw—mae llawer yn dibynnu ar ddarllen gwefusau neu iaith arwyddion er mwyn cyfathrebu.

3.39 Bydd rhai pobl yn ei gwneud yn ofynnol i ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg fod ar gael ar bapurau pleidleisio a gwybodaeth am orsafoedd pleidleisio, gan gynnwys braille. Nid oes tystiolaeth o'r llenyddiaeth bod hyn yn cael ei ddarparu yn gyffredinol, er y gellid cael amcan gwell wrth drafod gydag awdurdodau lleol a swyddogion canlyniadau.

3.40 Awgryma Belt (2016) mai problem allweddol yn hyn o beth yw alluogi gwybodaeth gan swyddogion etholiadau a staff gorsafoedd pleidleisio am ddarpariaethau, ac anghysur ymhlith gweithwyr etholiadau i helpu pobl i ddefnyddio technoleg hygyrch. Oherwydd hyfforddiant gwael, efallai na fydd swyddogion a gwirfoddolwyr yn gwybod pa ddarpariaethau y gallant eu defnyddio i helpu pobl anabl.

3.41 Oherwydd hyn a rhwystrau eraill, awgrymwyd y gall rhagweld materion, yn seiliedig ar brofiad blaenorol gynyddu canfyddiadau o frawychiad a gwahaniaethu ymhlith y

rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt a chreu "effaith iasol" i bleidleiswyr posibl efallai nad ydynt yn dymuno wynebu man pleidleisio anhygyrch neu weithwyr etholiad gelyniaethus eto (Johnson a Powell, 2019). Felly, gallai problemau blaenorol greu cyfranogiad isel yn y dyfodol hyd yn oed os caiff y problemau hyn eu datrys, sy'n ei gwneud yn bwysicach fyth mynd i'r afael â rhwystrau cyn gynted â phosibl (Belt, 2016).

*Rhwystrau i bleidleisio o bell*

3.42 Cynigir pleidleisio o bell yn aml fel ateb i anhygyrchedd pleidleisio yn y cnawd ac fe'i defnyddir fel addasiad i rai pobl; mae mwy o bobl anabl yn manteisio arno o'u cymharu â gweddill y boblogaeth, yn enwedig y rhai sydd ag amhariadau corfforol, oherwydd rhwystrau wrth gael mynediad i orsafoedd pleidleisio (boed hynny drwy brofiad neu'n rhagweledig) (Y Comisiwn Etholiadol, 2017). Eto, mae pleidleisio o bell yn llawn o'i faterion ei hun ac mae tystiolaeth yn dangos bod yn well gan lawer o bobl, gan gynnwys pobl anabl, bleidleisio yn y cnawd am amryw o resymau.

3.43 Roedd canfyddiadau ymchwil y Comisiwn Etholiadol (2017) yn dangos nad oedd rhai ymatebwyr "yn deall y cyfarwyddiadau ar eu pleidlais drwy'r post" a bod eraill yn dweud bod "gormod o ddarnau o bapur ac nad oedd hi'n rhwydd gwybod pa ddarnau o'r bleidlais drwy'r post oedd yn mynd i ba amlen". Yn yr un modd, mae rhai o'r heriau y mae pobl ag amhariad gwybyddol ac anhawster dysgu wedi eu hadrodd wrth bleidleisio drwy'r post yn cynnwys, er enghraifft, y print bach ar y ffurflenni; y gofyniad i ddarparu llofnod; cymhlethdod y cyfarwyddiadau sy'n cyd-fynd ag ef sy'n arwain at beidio â deall yr holl ofyniadau; a'r anhawster wrth lenwi a phlygu'r papur pleidleisio (Swyddfa'r Cabinet, 2018). Adroddwyd hefyd y gallai pobl anabl ddibynnu ar eraill i bleidleisio ac i bostio eu papur pleidleisio hefyd, sy'n codi pryder ynghylch cyfrinachedd a diogelwch eu pleidlais (Swyddfa'r Cabinet, 2018).

3.44 Ar y llaw arall, efallai y bydd pobl anabl hefyd yn dymuno gallu pleidleisio yn y cnawd—fel y rhan fwyaf o bobl, maen nhw'n ei weld fel rhan o theatr yr achlysur, ac yn ymddiried yn y broses yn fwy wrth ei gwneud yn y cnawd.

3.45 Hefyd, mae gan bobl anabl hawl i allu cael mynediad at bob agwedd ar bleidleisio yn yr un modd â phawb arall a gellid dadlau bod awgrymu pleidleisio o bell fel dewis yn gwyro oddi wrth yr hawl hon. Yn y goleuni hwn, mae awgrymu pleidleisio o bell

fel dewis arall yn ymddangos yn debycach i ateb cyflym i hybu’r niferoedd sy’n pleidleisio, yn hytrach nag ymgais i ymdrin â’r mater hygyrchedd wrth ei wraidd. Yn hytrach, dylem geisio sicrhau bod gan bobl anabl yr un gallu i bleidleisio yn y cnawd ag eraill, gan archwilio ar yr un pryd y dewisiadau i’r rhai sy’n dewis pleidleisio o bell. Mae’n ymwneud â chynnig yr un dewis i bleidleiswyr sydd ag amhariadau a phleidleiswyr nad oes ganddynt amhariadau.

3.46 Anfantais arall yw nad yw pleidleisio o bell ei hun yn hygyrch bob amser. Yn hytrach, mae tystiolaeth wedi dangos bod rhai mesurau gweinyddu etholiadau Ewropeaidd a fabwysiadwyd er mwyn hybu nifer y bobl sy’n pleidleisio, megis pleidleisio uwch a phleidleisio drwy’r post, yn lleihau’r nifer sy’n pleidleisio ymhlith pobl ag amhariadau a chyflyrau gwahanol (Wass et al. 2017; Johnson a Powell, 2019). Rheswm posibl dros hyn yw, pan nad yw mesurau newydd yn cael eu targedu’n uniongyrchol at bobl anabl neu bobl ag iechyd gwael (megis pleidleisio ymlaen llaw), gallai’r mesurau hyn ysgogi grwpiau pleidleiswyr eraill hyd yn oed yn fwy na’r rhai sydd ag amhariadau a chyflyrau (Mattila, 2022).

3.47 Fodd bynnag, mae tystiolaeth i’r gwrthwyneb sy’n ymwneud â defnyddioldeb diwygiadau o’r fath, sydd wedi helpu i gau’r bwlch yn y nifer sy’n pleidleisio i ryw raddau. Yng nghyd-destun yr Unol Daleithiau, mae caniatáu pleidleisio drwy’r post wedi cynyddu’r nifer sy’n pleidleisio ymhlith pobl anabl (Landwehr ac Ojeda, 2021). Hefyd, gallai darparu rhagor o orsafoedd pleidleisio yn nes at le mae pobl yn byw helpu, oherwydd bod mwy o bellter ffisegol oddi wrth orsafoedd pleidleisio yn lleihau’r tebygolrwydd o bleidleisio ymhlith pobl ag amhariadau a chyflyrau (Mattila a Rapeli, 2018; Mattila, 2022).

3.48 Mae pleidleisio drwy’r post yn cynnig mwy o amser i etholwyr dreulio gwybodaeth na phleidleiswyr sy’n pleidleisio yn y cnawd, ond eto mae ceisiadau drwy’r post a phleidleisau drwy’r post yn cynnwys materion tebyg i wybodaeth cyn yr etholiad gan nad ydynt yn cael eu darparu mewn fformatau hygyrch yn aml. Mae hyn yn cynnwys fersiynau hawdd eu deall a darluniedig; print bras; sain a fideo; papur pleidleisio ar gael mewn lliwiau heblaw du a gwyn; fersiynau braille a chyffyrddol; a thestun electronig.

3.49 Mae'r anhygyrchedd hwn o ran fformatau yn golygu bod angen cymorth ar bobl anabl gyda'u pleidlais drwy'r post yn aml, hyd yn oed pan fyddai'n well ganddynt allu cwblhau'r bleidlais ar eu pennau eu hunain. Gallai hyn amharu ar hawl pobl anabl i bleidlais preifat ac annibynnol (fel y'i nodir gan Gonfensiwn ar Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig, Erthygl 29), mater i lawer o bobl anabl, sydd eisoes angen sylw (e.e. Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, 2021).

3.50 Nid yw pleidleisio drwy ddirprwy yn ddewis poblogaidd ymhlith pobl anabl am yr un rhesymau nad yw'n boblogaidd ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol. Yn bennaf, mae hyn oherwydd bod pobl yn teimlo bod pleidleisio drwy ddirprwy yn creu datgysylltiad rhyngddynt a'r broses ddemocrataidd (Clark a James, 2016). Pan fo pobl anabl yn defnyddio dirprwy, y prif reswm a ddyfynnir dros wneud hynny yw anhygyrchedd pleidleisio yn y cnawd. Mae'r ffurflen gais ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy yn dueddol i'r un materion ynghylch anhygyrchedd fformatau â ffurflenni cofrestru pleidleiswyr a phleidleisio drwy'r post (Keeley et al., 2008).

3.51 Mae angen monitro'n ofalus y cyfaddawd posibl rhwng staff gorsafoedd pleidleisio sy'n fwy rhagweithiol, annog cynorthwywyr pleidleisio a dewisiadau pleidleisio eraill y canfyddir eu bod yn fwy hygyrch (megis pleidleisio drwy'r post), ar un llaw, a'r posibilrwydd y gellid tanategu cyfrinachedd y bleidlais, ar y llaw arall.

## 4. Addasiadau ac ymyriadau i wella hygyrchedd

4.1 Mae'r adran hon yn ystyried addasiadau posibl y gellid eu gweithredu er mwyn ceisio gwella hygyrchedd y broses ddemocrataidd yng Nghymru.

4.2 Dylid nodi, ym mwyafrif yr achosion, fod addasiadau ac ymyriadau i wella hygyrchedd yn tueddu i fod o fudd mawr i'r grwpiau hynny sydd eisoes wedi eu hysgogi i bleidleisio. Hynny yw, efallai na fyddant yn gwella'r niferoedd sy'n pleidleisio'n sylweddol, ac yn wir efallai na fyddant o reidrwydd yn lleihau'r 'bwlch anabledd' yn y niferoedd sy'n pleidleisio, oherwydd y bydd llawer o ymyriadau o'r fath yn gwella'r gallu i ymgysylltu'n ddemocrataidd ymhlith pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl.

4.3 Ymhellach, nid oes un strategaeth sy'n gweddu i bawb o ran gwneud y broses ddemocrataidd yn fwy hygyrch. Efallai na fydd yr addasiadau hynny sy'n helpu rhai

pobl i ymgysylltu o fudd i eraill ac mewn gwirionedd gallent gael effeithiau negyddol dilynol annisgwyl.

4.4 Yr ymyriadau hynny a fu fwyaf llwyddiannus oedd y rhai a ymgorfforodd strategaeth barhaus a hunanfyfyriol o ddiwygio'r broses etholiadol dros amser, gyda monitro a gwerthuso wrth wraidd y broses, er mwyn gweld a yw addasiadau'n gweithio a pha mor dda y maent yn gweithio. Er nad yw pleidleisio yn orfodol yng Nghymru, wrth gwrs, o safbwynt hygyrchedd, dylid ei drin fel pe byddai'n orfodol, er mwyn sicrhau y safonir arferion a mynediad i bob pleidleisiwr (Peixoto Gomes et al, 2022).

4.5 O'r herwydd, strwythurir yr adran hon mewn ffordd a fyddai'n rhoi syniad o'r hyn y gallai cylch diwygio parhaus a safonol i wella hygyrchedd o'r fath ei gynnwys, ar sail tystiolaeth o enghreifftiau domestig a rhyngwladol. Mae'n ymdrin ag addasiadau i brosesau etholiadol yn y cyfnod sy'n arwain at etholiadau, yn ystod cyfnodau etholiadol, rhwng cylchoedd etholiad a diwygiadau tymor hwy posibl.

**Addasiadau cyn etholiad**

4.6 Gall datblygu ymgyrchoedd neu fentrau addysgu a rhoi gwybodaeth gynhwysol i bleidleiswyr wella ymwybyddiaeth pleidleiswyr o'u hawliau pleidleisio; eu gwybodaeth am y prosesau cofrestru ac etholiadol; eu dealltwriaeth o faterion o ran pleidiau ac etholiadol allweddol; a'u lefelau hyder yn y system etholiadol (Lord et al., 2014). Dylid ystyried gwahaniaethau mewn anghenion cyfathrebu a gwybodaeth er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth yr etholwyr a newidynnau megis iaith, llythrennedd, traddodiadau diwylliannol a rhywedd a ystyrir wrth gynllunio ar gyfer addysg ac allgymorth effeithiol. Yn yr un modd, bydd sicrhau hygyrchedd addysg a gwybodaeth am bleidleisio i bobl anabl yn gofyn am ddarpariaethau ac addasiadau amrywiol, a bydd llawer ohonynt hefyd yn gwella mynediad ar gyfer amrywiaeth o grwpiau ymylol eraill (ibid.).

4.7 Yn Québec, er enghraifft, mae deunyddiau gwybodaeth ar gyfer etholwyr wedi eu haddasu i fformat hygyrch megis Braille, casét sain a phrint bras, yn ogystal â chasetiau fideo yn Iaith Arwyddion Québec ac Iaith Arwyddion America (Leclerc, 2010). Hefyd, yn ystod etholiadau blaenorol, roedd isdeitlau ar gyfer yr holl negeseuon ar y teledu ar gyfer pobl anabl ag amhariadau ar y clyw, ac roedd teledeipiadur ar gael i bobl byddar neu'n drwm eu clyw a ddarparai fynediad i

swyddogion gwybodaeth etholiadol cymwysedig, a allai ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr drwy ddull cyfathrebu addasedig (ibid.). Hefyd, drwy gydol pob cyfnod etholiadol, cafodd gwybodaeth ar y darpariaethau a'r addasiadau penodol a ddarparwyd ar gyfer etholwyr anabl ei lledaenu i'r holl gyfryngau yn Québec (Lord et al., 2014).

4.8 Felly, dylai'r rhai sy'n rheoli etholiadau yng Nghymru sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyn etholiad (gan gynnwys ffurflenni cofrestru a phapurau pleidleisio) a anfonir trwy'r post ar gael mewn fformatau hygyrch, yn ogystal â sawl iaith. Mae fformatau hygyrch yn cynnwys fersiynau hawdd eu deall, darluniedig a phrint bras; esboniadau pwyntiau bwled; llenyddiaeth sydd ar gael mewn lliwiau heblaw du a gwyn; a fersiynau braille a chyffyrddol.

4.9 Hefyd, dylai unrhyw ddeunydd cyn yr etholiad fod ar gael ar-lein ar ffurf testun, sain a fideo, gyda fideos sydd wedi eu haddasu i wahanol ieithoedd gan gynnwys iaith arwyddion, a chyda chapsiynau caeedig ar gael. Mae Bwrdeistref Brenhinol Kensington a Chelsea yn enghraifft yma, gan ei bod yn cynnig fersiynau printiedig o'r ffurflen gofrestru etholiadol mewn sawl iaith (Peixoto Gomes et al, 2022). Dylid efelychu ac ehangu hyn i gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cyfranogi mewn etholiadau.

4.10 Mae ymchwil flaenorol hefyd yn awgrymu y gellir gwella addysg a gwybodaeth am bleidleisio drwy ddefnyddio gwybodaeth ddarluniadol neu ar ffurf lluniau mewn deunydd etholiadol er mwyn gwella ymwybyddiaeth darpar bleidleiswyr o'u hawliau pleidleisio, cynyddu eu gwybodaeth am brosesau'r etholiad a gwella eu dealltwriaeth o weithdrefnau cyn ac yn ystod yr etholiad, gan gynnwys agweddau ar ymgeiswyr, pleidiau a materion allweddol (Lord et al., 2014; Hees et al., 2017).

4.11 Dylid defnyddio'r ddyletswydd ar bleidiau gwleidyddol fel offeryn i sicrhau bod pob plaid ac ymgeisydd yn cyhoeddi eu holl lenyddiaeth ymgyrchu, gan gynnwys maniffestos, mewn fformatau hygyrch. Dylid rhyddhau y fformatau hyn yr un pryd â'r fformatau safonol, fel bod y rhai y mae angen fformatau hygyrch arnynt yn cael cymaint o amser i'w hastudio ag etholwyr eraill.

4.12 Dylid gwneud newidiadau mwy eang, boed hynny drwy ddeddfwriaeth neu ddulliau eraill, i sicrhau bod y sylw yn y cyfryngau sy'n ymwneud ag etholiadau yn cael ei

wneud yn gwbl hygyrch, gan gynnwys darparu capsiynau caeedig a dehongli iaith arwyddion ar ddarllediadau gwleidyddol, dadleuon, trafodaethau ac ati.

4.13 Dylid cynnal ymgyrchoedd aml-lwyfan penodol ‘ewch allan i bleidleisio’, a ddefnyddir yn aml gan actorion sy’n cymryd rhan yn y broses etholiadol i ysgogi’r nifer sy’n pleidleisio ac ymgysylltu ag etholiadau (Green a Gerber, 2004), mewn cydweithrediad â sefydliadau sy’n cynrychioli pobl anabl. Mae hyn yn hanfodol gan ei fod yn caniatáu i etholwyr gynllunio ar gyfer yr hyn i’w ddisgwyl a beth i’w wneud ar ddiwrnod yr etholiad. Er bod peth ymchwil wedi ymchwilio i lwyddiant ymgyrchoedd ewch allan i bleidleisio yn gyffredinol (e.e. Howard a Posler, 2012; Nickerson, 2006), ychydig a wyddys am ba mor effeithiol ydynt o ran helpu i fynd i’r afael â’r broblem democrataidd pwysig o ymddieithrio ymhlith grwpiau penodol megis pleidleiswyr anabl, ac yn bwysig a ydynt yn llunio mathau o ymgysylltu gwleidyddol a fydd yn para’n hirach. Felly, mae angen archwilio effeithiau gwahaniaethol ymyriadau ymgyrchu etholiadol sydd wedi eu hanelu’n benodol at bleidleiswyr anabl er mwyn cynllunio ymgyrchoedd yn y dyfodol.

4.14 Dylai pobl anabl, a’r rhai sydd ag amhariadau gwybyddol ac anhawsterau dysgu yn benodol, a allai gael trafferth gydag amgylcheddau anhysbys, gael crynodeb o’r hyn i’w ddisgwyl ar ddiwrnod yr etholiad, a ddarperir mewn fformat hygyrch. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut i adnabod rhywun yn yr orsaf bleidleisio a allai gynnig cymorth pe byddai angen cymorth ac addasu deunyddiau etholiadol i lefel o ddealltwriaeth ar gyfer pobl ag amhariadau gwybyddol, er enghraifft drwy ddefnyddio logos lluniau ar bapur pleidleisio, cynhyrchu testun syml, defnyddio fideos a darparu cyrsiau am bleidleisio ac etholiadau (Hees et al., 2017).

4.15 Mae angen gwell ymwybyddiaeth o’r cymorth sydd ar gael i bobl anabl i’w helpu nhw, bod angen i ofalwyr a gweithwyr cymorth wybod y gallant gefnogi’r bobl y maent yn gofalu amdanynt i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio, a bod angen i bobl sy’n cynnal etholiadau wybod pa gefnogaeth a chymorth y gall pobl anabl eu cael (Y Comisiwn Etholiadol, 2017).

4.16 Gall y dewis o safleoedd gorsaf pleidleisio addas gael effaith fawr ar hygyrchedd pleidleisio (Waterstone, 2010). Felly, dylid ystyried nifer o ffactorau er mwyn cyflawni mynediad di-rwystr i orsafoedd pleidleisio. Fel yr awgryma Lord et al.

(2014), mae ymgynghori â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl yn rhan annatod o'r broses hon a gall helpu i nodi anghenion penodol pobl anabl, megis pobl mewn cadair olwyn. Bydd dewis safleoedd addas, megis nodi gorsafoedd pleidleisio gyda mynediad llawr gwaelod gwastad, yn hwyluso mynediad i bleidleiswyr sydd ag amhariadau symudedd yn ogystal â bod o fudd i fenywod beichiog, pobl hŷn ac unigolion â chyflyrau iechyd dros dro neu barhaol sy'n cyfyngu ar symudedd. Yng Nghanada, pan nad yw mynediad gwastad mewn canolfan bleidleisio yn bosibl, darperir tocynnau trosglwyddo i alluogi pleidleiswyr sydd ag amhariadau symudedd i ddefnyddio canolfan bleidleisio arall a hygyrch (Elections Canada, 2004; Lord et al., 2014).

4.17 Rhoddir mwy o sylw bellach i'r defnydd o archwiliadau hygyrchedd i sicrhau mynediad effeithiol at brosesau gwleidyddol i bobl anabl, ac mae arferion gorau yn pwysleisio bod mentrau o'r fath yn cael eu gweithredu fwyaf effeithiol pan y'u gweithredir ar y cyd gan sefydliadau pobl anabl ar y cyd â swyddogion etholiadol. Yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft, cynhaliodd Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau adolygiadau cydymffurfio mewn mannau pleidleisio mewn 82 o gymunedau ledled yr Unol Daleithiau yn rhan o'i 'Project Access Initiative' a gweithiodd i orfodi gofynion hygyrchedd Deddf Americanwyr ag Anableddau yn y cyd-destun pleidleisio. Yn yr un modd, gweithredodd dinas Philadelphia welliannau hygyrchedd mewn mwy na 500 o leoedd pleidleisio a dechreuodd rhai taleithiau yn yr Unol Daleithiau eu rhaglenni hygyrchedd eu hunain hefyd i fynd i'r afael â'r dasg o gael gwared ar rwystrau parhaus (Waterstone, 2010).

4.18 Mae'r Alban hefyd yn enghraifft dda i'w dilyn yma, a dengys ymchwil a wnaed yn dilyn Etholiadau Senedd yr Alban a Llywodraeth Leol yn 2003 ymwybyddiaeth a gwybodaeth dda o'r angen i sicrhau bod yr adeiladau a ddefnyddir fel mannau pleidleisio yn hygyrch (yn unol ag adran 18(3)a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983). Cynhaliodd llawer o dimau etholiadol archwiliadau mynediad ac adolygiadau cyflawn o leoedd pleidleisio cyn yr etholiad mewn cydweithrediad â grwpiau lleol sy'n cynrychioli pobl anabl a Capability Scotland. O ganlyniad i hynny, adroddwyd bod newidiadau'n cael eu gwneud, naill ai drwy symud i adeiladau mwy hygyrch neu drwy wneud gwelliannau parhaol neu dros dro (Capability Scotland, 2003).

4.19 Felly, gellid gwella profiadau pleidleiswyr gan awdurdodau lleol ledled Cymru drwy roi mwy o ystyriaeth i nodi adeiladau addas i'w defnyddio fel mannau pleidleisio, gwneud addasiadau yn ôl yr angen a gweithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl i sicrhau eu bod yn ystyried lleoliadau a chynllun o safbwynt pobl anabl sydd â chyflyrau iechyd ac amhariadau.

4.20 Yn 2021, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phrif gynghorau ledled Cymru i weithredu detholiad o gynlluniau peilot pleidleisio ymlaen llaw i brofi gwahanol fathau o bleidleisio uwch cyn etholiadau Mai 2022, yn rhan o'i Fframwaith ar gyfer diwygio etholiadol. Nododd gwerthusiad o'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd gan Y Comisiwn Etholiadol (2022) er bod y pleidleiswyr a ddefnyddiodd y gwahanol ddulliau o bleidleisio ymlaen llaw yn fodlon â'u profiad o bleidleisio a'r dewis ychwanegol pe byddai'n cael ei gynnig, nid roddodd y cyfle i bleidleisio yn y cnawd cyn y diwrnod pleidleisio, ar ei ben ei hun, hwb sylweddol i'r nifer a bleidleisiodd.

4.21 Mae profiad y cynlluniau peilot yn darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am sut y gallai pleidleisio ymlaen llaw weithio'n ymarferol. Er enghraifft, roedd y defnydd o gofrestrau electronig yn llwyddiannus, gan ganiatáu mynediad i'r gofrestr ar gyfer unrhyw ardal yn yr awdurdod lleol drwy un ddyfais. Fodd bynnag, mae'r nifer fach o gynlluniau peilot a'r dewis o leoliadau lle cawsant eu profi yn golygu bod gwaith i'w wneud o hyd i ddatblygu unrhyw bolisi yn y dyfodol ac i ddeall sut y gellid ei weithredu. Mae'r gwerthusiad yn nodi nifer o feysydd penodol hefyd y mae angen mynd i'r afael â nhw os bwriedir ystyried cyflwyno pleidleisio ymlaen llaw ymhellach yn y dyfodol, gan gynnwys lleoliad a nifer y lleoliadau pleidleisio; nifer a dewis y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw; costau a manteision gweithredu ehangach; gwella'r capasiti presennol yn y gwasanaethau etholiadol; manteision gweithgaredd ymwybyddiaeth cyhoeddus ehangach sydd wedi ei gydgysylltu a'i ariannu'n ganolog o amgylch etholiadau ac amser digonol fel y gall gweinyddwyr etholiadol weithredu unrhyw newidiadau (Y Comisiwn Etholiadol, 2022).

**Addasiadau yn ystod etholiadau: Gorsafoedd pleidleisio**

4.22 Mae sawl addasiad i orsafoedd pleidleisio sy'n angenrheidiol i'w gwneud yn gwbl hygyrch. Mae'r addasiadau posibl y gellid eu gwneud i bleidleisio yn y cnawd mewn gorsafoedd pleidleisio yn cynnwys:

- Sicrhau bod yr holl orsafoedd pleidleisio mewn lleoliadau sy’n hygyrch i bob math o drafnidiaeth, gan ddarparu parcio hygyrch;
- Sicrhau mynediad heb risiau a llawrydd i bob gorsaf bleidleisio (h.y. y gallu i osgoi peryglon grisiau a drysau nad ydynt yn awtomataidd). Dylid bod llwybr gwastad, clir a di-rwystr drwy’r orsaf bleidleisio, gan gynnwys at y blwch pleidleisio a’r allanfa;
- Creu posibilrwydd o ymdrin â chiwiau ar gyfer y rhai y mae angen hynny arnynt. Dylai hyn gynnwys seddi sydd ar gael, ond hefyd rhyw fath o bas ‘neidio’r ciw’ neu flaenoriaeth i’r rhai sy’n cael trafferth ciwio am gyfnodau hir. Dangoswyd bod yr addasiad olaf hwn yn gweithredu’n dda, er enghraifft, yn Georgia, UDA (Johnson a Powell, 2020);
- Gall cynnig ‘pleidleisio ar ochr y pafin’ (h.y., dod â’r blwch pleidleisio allan at y pleidleisiwr) weithredu fel modd o ganiatáu i bobl anabl osgoi ciwiau hefyd, fel y gwneir yn Tecsas (ibid.).

4.23 Mae gweithdrefnau pleidleisio, ynghyd â dylunio a defnyddio papurau pleidleisio ac offer ategol mewn gorsafoedd pleidleisio, yn ddimensiynau pwysig o hygyrchedd i bobl anabl. Mae pleidleiswyr dall neu bleidleisiwyr ag amhariad ar eu golwg mewn perygl arbennig o fethu â defnyddio pleidleisiau printiedig a deunydd etholiadol arall sy’n hanfodol i gyfranogi’n effeithiol mewn prosesau etholiadol (Fleming, 2009). Wrth fwrw eu pleidleisiau, mae hawl pleidleiswyr dall neu bleidleiswyr ag amhariad ar eu golwg i bleidleisio’n annibynnol ac yn gyfrinachol yn cael ei chyfaddawdu yn aml iawn (Lord et al., 2014).

4.24 Amlygwyd hyn mewn adolygiad barnwrol a gyflwynwyd i’r Uchel Lys yn 2019, ac a heriwyd ymhellach yn 2021, sy’n ymwneud â’r darpariaethau pleidleisio ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall. Llwyddodd yr hawlydd, Rachel Andrews, sydd â dirywiad maciwlaidd myopig ac sydd wedi ei chofrestru’n ddall ers 2000, i herio darpariaeth Llywodraeth y DU ar gyfer pleidleiswyr dall a rhannol ddall. Dadleuodd fod y trefniadau oedd ar waith ar gyfer etholiad cyffredinol Rhagfyr 2019 yn anghyfreithlon oherwydd nad oeddent yn caniatáu iddi bleidleisio’n annibynnol ac yn gyfrinachol yn yr orsaf bleidleisio.

4.25 Roedd yr achos yn canolbwyntio ar y ddadl nad yw dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol yn caniatáu proses pleidleisio annibynnol oherwydd bod angen cymorth i helpu'r pleidleisiwr i ddarllen enwau'r ymgeiswyr a'r drefn y maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Dadleuodd yr hawlydd fod diffyg hygyrchedd yn y system yn digalonni pobl ddall rhag pleidleisio gan ddisgrifio dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol fel rhai nad ydynt yn addas i'r diben, ac o ganlyniad fod y DU ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill sy'n defnyddio systemau megis bythau pleidleisio clywedol a phleidleisio dros y ffôn i gynorthwyo pleidleiswyr dall a rhannol ddall.

4.26 Yn ystod yr adolygiad, darparodd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall ddatganiad tyst i gefnogi'r achos ac amlygodd ganfyddiadau o ymchwil a gynhaliwyd ganddo i'r heriau a wynebir gan bleidleiswyr dall a rhannol ddall, a ddangosodd mai dim ond un o bob pedwar pleidleisiwr dall a rhannol ddall oedd yn teimlo bod y system bresennol yn gadael iddynt bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, 2021).

4.27 Datganodd yr Uchel Lys fod trefniadau'r Llywodraeth yn anghyfreithlon ar y sail nad yw dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol yn caniatáu i bobl ddall a rhannol ddall bleidleisio heb fod angen unrhyw gymorth. Dywedodd y dyfarniad:

> *"Parodi o'r broses etholiadol a sefydlwyd o dan y rheolau yw galluogi pleidleisiwr dall i farcio papurau pleidleisio heb allu gwybod pa ymgeisydd y mae hi'n pleidleisio drosto."*

4.28 Mewn rhai gwledydd, mae peiriannau pleidleisio electronig yn gwella mynediad i bobl sydd ag amhariad ar eu golwg (Mindes, 2002; Ghana Association of the Blind, 2002). Yng Ngorllewin Awstralia, er enghraifft, mae meddalwedd gyfrifiadurol o'r enw 'Vote Assist' yn caniatáu i etholwyr sydd ag amhariad ar eu golwg wrando ar recordiad sain, a thrwy ddilyn y cyfarwyddiadau a defnyddio bysellbad rhifol, gallant fwrw eu pleidlais, cael papur pleidleisio printiedig, a rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio, a thrwy hynny warchod annibyniaeth a chyfrinachedd (Palmer, 2013; Lord et al., 2014).

4.29 Hefyd, mae tystiolaeth o UDA sy'n awgrymu bod pobl anabl ag amhariadau gwybyddol ac anhawsterau dysgu yn ei chael hi'n haws defnyddio peiriannau pleidleisio electronig o'u cymharu â phapurau pleidleisio (Friedman, 2018).

4.30 Gellir cyflwyno atebion eraill hefyd yn effeithiol am gost gymharol isel. Mae canllawiau pleidleisio cyffyrddol, er enghraifft, wedi eu defnyddio’n effeithiol yn Sierra Leone, Ghana, Periw ac mewn mannau eraill i helpu i sicrhau’r hawl i bleidleisio’n gyfrinachol ac yn annibynnol (Global Initiative to Enfranchise People with Disabilities, dim dyddiad). Pan maent wedi eu cynllunio’n iawn, mae’r cyfeiryddion yn galluogi i bapurau pleidleisio gael eu mewnosod yn y cyfeirydd mewn un cyfeiriad yn unig, gan ganiatáu i bleidleisiwr dall a rhannol ddall rhoi’r papur pleidleisio yn y canllaw heb gymorth, a thrwy hynny sicrhau annibyniaeth a chyfrinachedd yn y broses bwrw pleidlais. Yn Liberia yn 2004, cydweithredodd cynrychiolwyr allweddol o’r gymuned anabledd â National Election Commission a phartneriaid cymorth rhyngwladol i ddylunio a threialu cyfeiryddion pleidleisio cyffyrddol o’r fath mewn ardaloedd etholiadol dynodedig (Mindes, 2002). Datblygwyd deunyddiau ar ddefnyddio’r cyfeirydd, hyfforddwyd gweithwyr etholiad ar ei ddefnydd, a gwnaed allgymorth i sicrhau bod pleidleiswyr dall a rhannol ddall yn ymwybodol ei fod ar gael (Lord et al., 2014).

4.31 Felly, dylid parhau i ddarparu’r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy i bleidleiswyr dall a rhannol ddall, er y dylid sicrhau bod y dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol a ddarperir i orsafoedd pleidleisio yn briodol ar gyfer hyd a maint y papurau pleidleisio ym mhob etholiad unigol. Yn dilyn ymateb cadarnhaol i dreial dyfais sain a oedd yn cyd-fynd â’r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy yn Norfolk yn 2021, ac argymhelliad dilynol gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (2021) y dylid cyflwyno’r ddyfais sain hon ledled y DU, dylai gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru hefyd ystyried treialu’r addasiad hwn. Gallai’r cyfuniad o ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy a dyfais sain neu offer eraill helpu i sicrhau bod pleidleiswyr dall a rhannol ddall yn gallu pleidleisio heb gymorth, a chan hynny, yn annibynnol ac yn gyfrinachol.

4.32 Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried lled ac uchder y bythau pleidleisio, a darparu dewisiadau hygyrch, er mwyn sicrhau bod bythau pleidleisio yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a’r rhai sydd ag amhariadau symudedd.

4.33 Mae ymchwil hefyd wedi awgrymu y byddai’n fwy hygyrch i rai pleidleiswyr, yn enwedig pobl ddall a rhannol ddall, ddefnyddio offeryn gwahanol, megis stamp gyda chroes, i bleidleisio, yn hytrach na gorfod marcio’r papur ag ysgrifbin neu bensil.

Dylid hefyd darparu pensiliau ac ysgrifbinnau gafael mawr i'r rhai sydd eu hangen mewn bythau pleidleisio safonol.

4.34 Dylai'r holl wybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch, yn ogystal â mewn sawl iaith wahanol.

4.35 Dylai pob gorsaf bleidleisio fod â goleuadau da a chwyddwydr a dylid darparu goleuadau cludadwy i'r rhai y mae angen gwelliant gweledol ychwanegol arnynt.

4.36 Dylai gorsafoedd pleidleisio hefyd ddarparu clustffonau canslo sŵn i'r rhai sy'n cael trafferth gyda mannau swnllyd a phrysur a sicrhau bod ystafell ar wahân ar gael i'r rhai y mae'n well ganddynt bleidleisio oddi wrth dorfeydd neu ardaloedd prysur; a

4.37 Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe byddai llawer o bleidleiswyr anabl yn cael darluniau ychwanegol (e.e., symbolau wrth ymyl enwau'r ymgeiswyr) a slipiau pleidleisio mwy, er mwyn atal y bleidlais rhag cael ei dynodi'n un sydd wedi ei difetha os yw'r croesau'n rhy fawr.

4.38 Awgryma adroddiad Drws ar Glo (2021) Llywodraeth Cymru y dylid datblygu 'cod cwrteisi coronafeirws' er mwyn codi ymwybyddiaeth o hawl pobl anabl i gael mynediad i fannau cyhoeddus yn ddiogel. Er bod cyfyngiadau penodol ar gyfer COVID-19 wedi eu codi er hyn, efallai y bydd canllawiau ymddygiad cyffredinol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio yn werth eu hystyried.

4.39 Ar ôl ymgynghori ag aelodau Visual Impairment Consultative Forum (consortiwm o naw sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ddall a rhannol ddall yng Ngogledd Iwerddon), sefydlodd Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon linell gymorth newydd ar gyfer etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2022 y gall pleidleiswyr dall a rhannol ddall ei galw i glywed y rhestr o ymgeiswyr yn eu hardal, yn y drefn y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio, i'w helpu gyda'u dewis (Disability Action, 2022). Dylai'r rhai sy'n rheoli etholiadau yng Nghymru roi sylw i unrhyw werthusiad o'r llinell gymorth hon ac ystyried gweithredu cynllun tebyg. Dylid ystyried a ellid ehangu hyn i raglen gymorth ehangach i bob pleidleisiwr ar y diwrnod.

4.40 Bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar bob un o'r uchod i'r rhai sy'n gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio, er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o unrhyw

addasiadau newydd a sut i gynorthwyo'r rhai sy'n dymuno eu defnyddio nhw. Mae angen i hyfforddiant gael ei lywio'n fwy gan ddealltwriaeth pobl anabl o hygyrchedd neu'n wir, fod eu safbwyntiau'n llywio cynlluniau gorsafoedd pleidleisio (Capability Scotland, 2003).

**Addasiadau yn ystod etholiadau: Pleidleisio o bell**

4.41 Fel y soniwyd eisoes, ni ddylid ystyried pleidleisio o bell fel dewis arall rhwydd yn lle pleidleisio yn y cnawd, oherwydd bod yn well gan lawer o bobl, gan gynnwys pobl anabl, bleidleisio yn y cnawd. Er hynny, mewn llawer o amgylchiadau, gallai pleidleiswyr ddewis pleidleisio o bell oherwydd materion mynediad, ac mae ffyrdd y gellir ehangu a gwella pleidleisio o bell o bob math i sicrhau'r hygyrchedd gorau bosibl.

4.42 Mae gorsafoedd pleidleisio symudol (h.y., dod â blychau pleidleisio i fannau preswyl pobl) yn ddewis poblogaidd yn rhyngwladol, gan gynnwys yn y DU, Ewrop ac UDA. (Y Comisiwn Etholiadol, 2021; van Hees et al, 2019; Schur et al, 2017). Yr awgrym mwyaf ymarferol ynglŷn â phleidleisio symudol yw y dylai cynlluniau o'r fath dargedu llety lle mae sawl etholwr a allai ei chael hi'n anodd mynd i orsaf bleidleisio (ysbytai, cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, llety gwarchod, ac ati).

4.43 Yn yr un modd â gwybodaeth cyn yr etholiad, dylai pleidleisiau drwy'r post, a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â phleidleisio drwy'r post, fod mewn fformatau hygyrch yn ogystal â sawl iaith. Fel yr uchod, mae fformatau hygyrch yn cynnwys fersiynau hawdd eu deall a darluniedig; esboniadau pwyntiau bwled; print bras (maint ffont 16–20); llenyddiaeth sydd ar gael mewn lliwiau heblaw du a gwyn; a fersiynau braille a chyffyrddol.

4.44 Dylid ategu hyn â gwybodaeth ar-lein ar ffurf testun, sain a fideo, gyda fideos sydd wedi eu haddasu i wahanol ieithoedd gan gynnwys iaith arwyddion, a chyda chapsiynau caeedig ar gael.

4.45 Dylai pleidleisio drwy ddirprwy a'i waith papur cysylltiedig fod ar gael ym mhob un o'r fformatau hygyrch hyn a chan ddarparu gwybodaeth ar-lein fel y rhestrir uchod.

4.46 Dylid cymryd camau i sicrhau bod y rhai sy'n pleidleisio o bell yn gallu gwneud hynny'n breifat ac yn annibynnol yn hytrach na dibynnu ar eraill am gymorth. Fel pleidleisio yn y cnawd, byddai'n werth ystyried llinell gymorth benodol dros y ffôn.

**Addasiadau rhwng etholiadau**

4.47 Fel y sonnir uchod, y systemau mwyaf llwyddiannus o ran darparu hygyrchedd ar gyfer prosesau democrataidd yw'r rhai sydd wedi ymgorffori nifer mawr o newidiadau dros amser ac sydd wedi ymgysylltu mewn proses ailwerthuso cyson. Awgrymir isod rai newidiadau y gellid eu gwneud rhwng cyfnodau etholiad a fyddai'n hwyluso'r broses hon yng Nghymru.

4.48 Dylid archwilio gorsafoedd pleidleisio am faterion hygyrchedd. Dylai'r broses o nodi problemau arwain at atebion a fydd yn cael gwared ar rwystrau. Mae'n debygol y bydd costau ymlaen llaw ar gyfer hyn, ond mae'n hanfodol i gyflawni system pleidleisio hygyrch.

4.49 Dylai holl staff gorsafoedd pleidleisio gael eu hyfforddi i fod yn ymwybodol o anghenion posibl etholwyr, ac i reoli unrhyw addasiadau ar ddiwrnod yr etholiad.

4.50 Dylid cynnal ymgyrchoedd addysg dinesig, ar gyfer y cyhoedd a rhai sydd wedi eu targedu'n benodol ar gyfer pobl anabl, er mwyn gwneud etholwyr yn ymwybodol o'u hawl i bleidleisio yn ogystal â'u hysbysu am y broses o wneud hynny. Dylai'r rhai a anelir at bleidleiswyr anabl gael eu cynnal mewn cydweithrediad â grwpiau eiriolaeth.

4.51 Dylid monitro addasiadau i bob agwedd ar y system bleidleisio yn barhaus er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd a nodi unrhyw ganlyniadau negyddol anfwriadol.

4.52 Dangoswyd ei bod yn hanfodol gwneud newidiadau angenrheidiol rhwng etholiadau wrth wella'r profiad o bleidleisio i bobl anabl. Trwy fabwysiadu'r dulliau uchod gyda'i gilydd, llwyddodd talaith Wisconsin i ddileu'r 'bwlch anabledd' yn y nifer sy'n pleidleisio (Belt, 2016).

4.53 Dylai pob un o'r uchod gael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth sy'n gwarantu safonau gofynnol gorfodol ar gyfer hygyrchedd, sy'n cael eu hailasesu'n rheolaidd eu hunain. Dengys tystiolaeth ryngwladol fod hon yn strategaeth llawer mwy effeithiol

ar gyfer cael gwared ar rwystrau na chadw at ganllawiau gwirfoddol (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011).

4.54 Dylai cryfhau cyfranogiad gwleidyddol pobl anabl fod yn bryder parhaus a dylid monitro yn barhaus, cyn ac ar ôl etholiadau.

## 5. Diwygio etholiadol

5.1 Diwygio etholiadol ehangach yw'r agwedd derfynol a ystyrir o ran gwella hygyrchedd. Mae'r adran hon yn cynnwys sylwebaeth ar newidiadau posibl i'r system etholiadol a allai wella'r gallu i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

### Pleidleisio hyblyg

5.2 Byddai pleidleisio hyblyg yn golygu llacio'r cyfyngiadau ynghylch pryd a lle y byddai angen i bleidleiswyr bleidleisio. Mae rhyw arwydd y gallai hyn wella hygyrchedd etholiadau (Peixoto Gomes et al., 2022).

5.3 Mae'n bosibl y byddai gallu dewis gorsaf bleidleisio, yn hytrach na chael un wedi ei neilltuo, yn caniatáu i bleidleiswyr anabl ddewis eu gorsaf bleidleisio yn seiliedig ar y graddau y mae pob lleoliad yn gweddu i'w hanghenion.

5.4 Gallai'r gallu i bleidleisio ar ddiwrnodau lluosog ganiatáu gwelliannau tebyg i fynediad, oherwydd y byddai gan bleidleiswyr anabl fwy o hyblygrwydd mewn theori i ddewis yr amseroedd sydd fwyaf addas iddynt, neu, er enghraifft, amseroedd tawelach o'r dydd neu'r wythnos.

5.5 Gallai estyn y cyfnod pleidleisio dros gyfnod hwy olygu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynd i orsafoedd pleidleisio ar unrhyw adeg benodol, a chan hynny byddai'n haws pleidleisio oherwydd lleihad mewn ciwiau (Rojas a Muller, 2014).

### Cofrestru ar yr un diwrnod a chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig

5.6 Mae cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, neu ganiatáu i bleidleiswyr gofrestru i bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio, hefyd wedi eu hawgrymu fel ffordd bosibl o ysgogi'r grwpiau hynny sy'n llai tebygol o bleidleisio ar hyn o bryd (Hunt a Nickson, 2019).

5.7 I bobl anabl, mae dileu'r gofyniad i gofrestru ymlaen llaw yn debygol o hwyluso'r broses o bleidleisio, oherwydd, ar gyfer pobl anabl yn benodol, gallai haenau o fiwrocratiaeth fod yn rhwystrau i gyfranogiad etholiadol, ac felly byddai cael gwared ar un o'r haenau hyn yn cael gwared ar rwystr o'r fath (Matsubayashi ac Ueda, 2014). Yn ogystal, o ystyried maint y rhwystrau digidol sy'n wynebu llawer o bobl anabl a phobl ag anableddau dysgu, dylid gwneud y broses o gofrestru mor hygyrch â phosibl gan nad yw'r broses o gofrestru ar-lein yn opsiwn i rai pobl anabl (Good Things Foundation, 2024).

**Systemau pleidleisio eraill**

5.8 Gallai symud o'r Cyntaf i'r Felin i system bleidleisio arall, fwy cyfrannol gryfhau ymgysylltiad pleidleiswyr a'r nifer sy'n pleidleisio, gan gynnwys ymhlith pobl anabl. Fodd bynnag, gallai system arall, yn enwedig un, megis Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, sy'n gofyn am newid yn y dull o bleidleisio ar ran yr etholwr (e.e., yr angen i ddewis nifer o ymgeiswyr neu ddefnyddio rhifau yn hytrach na chroesau), greu materion hygyrchedd.

5.9 Os bydd unrhyw gynghorau yng Nghymru yn dewis newid o'r Cyntaf i'r Felin i Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau lleol, o dan bwerau Deddf Llywodraeth Leol (Etholiadau) 2021, dylid cynnwys hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf. Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau o'r fath heb sicrhau yn gyntaf fod addasiadau rhesymol ar waith i ganiatáu i bobl anabl ddefnyddio'r systemau hyn yr un ffordd ag eraill, neu'n haws. Bydd hyn yn gofyn am addysg a hyfforddiant yn ogystal ag asesiad cyfanwerthol o addasiadau i'r wybodaeth a ddarperir i bleidleiswyr, ac i orsafoedd pleidleisio a dulliau pleidleisio o bell.

**Arferion da mewn cysylltiad â hygyrchedd**

5.10 Mae llawer i'w ddysgu hefyd o lwyddiannau gwledydd eraill wrth iddynt ymateb i wella hygyrchedd y broses etholiadol. Er enghraifft, tynnodd galwad Llywodraeth y DU am dystiolaeth am wella'r gallu i gymryd rhan mewn etholiadau sylw at arferion da gan nifer o awdurdodau lleol ledled Lloegr a'r Alban, a chan Fwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban, mewn cysylltiad â gwella hygyrchedd. Roedd y rhain yn cynnwys cadw at ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol a darparu cymorth cartref i bobl anabl gwblhau eu papurau pleidleisio, gan gynnwys mewn cartrefi gofal ac ysbytai.

Nododd nifer o awdurdodau lleol hefyd eu bod wedi cysylltu â sefydliadau lleol sy’n cynrychioli pobl anabl i ddarparu gwybodaeth ac i gael cyngor, gan gynnwys cyngor ar brynu offer newydd, cyflogi gweithwyr allgymorth hyfforddedig yn y gymuned, cynnal digwyddiadau, mynd i ddiwrnodau agored a darparu hyfforddiant wedi ei dargedu i staff sy’n ymdrin â’r cyhoedd (Swyddfa’r Cabinet, 2019).

## 6. Casgliadau

### Rhwystrau i system etholiadol hygyrch

6.1 Mae bod yn berson anabl ynddo ei hun yn nodwedd penderfynu ystadegol arwyddocaol ar gyfer y nifer sy’n pleidleisio ac mae’n gysylltiedig â thebygolrwydd is o bleidleisio.

6.2 Mae ymchwil a wnaed yn yr Unol Daleithiau ac yn Ewrop ar gyfranogiad gwleidyddol pobl anabl yn ystod y degawdau diwethaf wedi canfod bod nifer y pleidleiswyr yn is ymhlith pobl anabl na phobl nad ydynt yn anabl, ac yn fwy felly ymhlith y rhai a oedd yn hŷn, yn dlotach neu ag amhariadau symudedd sylweddol (Schur et al., 2002; Priestley, 2016).

6.3 Dengys dadansoddiad data o’r Iseldiroedd, lle mae gan bron i un o bob wyth dinesydd amhariad hirdymor, fod pobl ag amhariadau symudedd ac anhawsterau dysgu yn profi nifer enwedig o isel sy’n pleidleisio (Van Hees, Boeije a de Putter 2019).

6.4 Mae’r patrwm hwn o niferoedd isel yn pleidleisio ymhlith pobl anabl yn nodwedd a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn aml cyfeirir ato yn y llenyddiaeth fel y ‘bwlch anabledd’ yn y nifer sy’n pleidleisio (Teglbjærg et al., 2022).

6.5 Er gwaethaf datblygu a gweithredu deddfwriaeth yn ystod y degawdau diwethaf gan roi effaith i’r Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl, mae’r bwlch hwn wedi aros yn fawr oherwydd ‘effeithiau cyfunol a rhyngweithiol anhygyrchedd, ynysu cymdeithasol, llai o adnoddau economaidd, a chanfyddiadau bod y system wleidyddol yn anymatebol’ (Schur ac Adya, 2013; Priestley, 2016).

6.6 Fodd bynnag, ni ddylid drysu rhwng llai o debygolrwydd o bleidleisio a llai o ddiddordeb neu ymgysylltiad gwleidyddol. Mae ymchwil yn awgrymu mewn

gwirionedd fod pobl anabl yr un mor ymgysylltiol â materion gwleidyddol â'r boblogaeth gyffredinol, os nad yn fwy felly, er gwaethaf eu cyfraddau pleidleisio is.

6.7 Gall siomedigaeth â'r system wleidyddol annog rhai mathau o weithgareddau gwleidyddol; er enghraifft, mae iechyd gwael yn cymell pobl i gymryd rhan mewn camau sy'n uniongyrchol berthnasol i'w hanghenion yn aml, megis cymryd rhan mewn gwrthdystiadau sy'n gysylltiedig â pholisïau gofal iechyd cyhoeddus annigonol, neu gysylltu â gwleidyddion i geisio effeithio ar benderfyniadau sy'n mynd i wasanaethau iechyd lleol (Mattila, 2022).

**Rhwystrau yn y broses gweinyddu etholiadol**

6.8 Mae pleidleiswyr anabl yn wynebu nifer o rwystrau posibl i gyfranogi yn wleidyddol o'u cymharu â phleidleiswyr nad ydynt yn anabl, gan gynnwys diffyg gallu i gael gwybodaeth; heriau logistaidd yn ymwneud â lleoliad yr orsaf bleidleisio a'i hagosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau parcio hygyrch; problemau yn yr orsaf bleidleisio ei hun; ac anawsterau â'r profiad o bleidleisio.

6.9 Cynigir pleidleisio o bell yn aml fel ateb i anhygyrchedd pleidleisio yn y cnawd ac fe'i defnyddir fel addasiad i rai pobl anabl; mae mwy o bobl anabl yn manteisio arno o'u cymharu â gweddill y boblogaeth, yn enwedig y rhai sydd ag amhariadau symudedd, oherwydd anawsterau wrth gael mynediad i orsafoedd pleidleisio (boed hynny drwy brofiad neu'n rhagweledig) (Y Comisiwn Etholiadol, 2017).

6.10 Fodd bynnag, mae pleidleisio o bell yn llawn o'i faterion a'i heriau ei hun, gan gynnwys y print bach ar ffurflenni; y gofyniad i ddarparu llofnod a chymhlethdod cyfarwyddiadau cysylltiedig sy'n arwain at beidio â deall yr holl ofyniadau. Mae'r anhygyrchedd hwn o ran fformatau yn golygu bod pobl anabl yn dibynnu ar eraill am gymorth gyda'u pleidlais drwy'r post yn aml, hyd yn oed pan fyddai'n well ganddynt allu cwblhau'r bleidlais ar eu pennau eu hunain, sy'n codi pryder ynghylch cyfrinachedd a diogelwch eu pleidlais (Swyddfa'r Cabinet, 2018).

6.11 Mae tystiolaeth yn dangos bod yn well gan lawer o bobl, gan gynnwys pobl anabl, allu pleidleisio yn y cnawd; maen nhw'n ei weld fel rhan o theatr yr achlysur ac yn ymddiried yn y broses yn fwy wrth ei gwneud yn y cnawd, ac mae hefyd yn cynnig

mwy o amser i etholwyr ddarllen a deall gwybodaeth na phan na fyddant yn pleidleisio yn y cnawd.

6.12 Mae angen monitro'n ofalus y cyfaddawd posibl rhwng staff gorsafoedd pleidleisio sy'n fwy rhagweithiol, annog cynorthwywyr pleidleisio a dewisiadau pleidleisio eraill y canfyddir eu bod yn fwy hygyrch (megis pleidleisio drwy'r post), ar un llaw, a'r posibilrwydd y gellid tanategu cyfrinachedd y bleidlais, ar y llaw arall.

**Addasiadau ac ymyriadau i wella hygyrchedd**

6.13 Gellid gweithredu amrywaieth o addasiadau posibl i brosesau etholiadol yn y cyfnod cyn etholiadau er mwyn gwell hygyrchedd y broses ddemocrataidd yng Nghymru.

6.14 Dylai'r rhai sy'n rheoli etholiadau yng Nghymru sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyn etholiad (gan gynnwys ffurflenni cofrestru a phapurau pleidleisio) a anfonir trwy'r post ar gael mewn fformatau hygyrch, megis fersiynau hawdd eu deall, gyda lluniau a fersiynau print bras, fersiynau braille a chyffyrddol. Hefyd, dylai deunydd fod ar gael ar-lein ar ffurf testun, sain a fideo, gyda fideos sydd wedi eu haddasu i wahanol ieithoedd gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, a chyda chapsiynau caeedig ar gael.

6.15 Mae angen gwell ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i bobl anabl i'w helpu nhw, eu gofalwyr a'u gweithwyr cymorth i ddeall y broses o gofrestru i bleidleisio a'r broses o bleidleisio, ac er mwyn galluogi'r bobl sy'n cynnal etholiadau i wybod pa gefnogaeth a chymorth y gellir eu darparu i bobl anabl (Y Comisiwn Etholiadol, 2017).

6.16 Dylai pobl anabl a allai gael trafferth gydag amgylcheddau anhysbys, gael crynodeb o'r hyn i'w ddisgwyl ar ddiwrnod yr etholiad, a ddarperir mewn fformat hygyrch. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut i adnabod rhywun yn yr orsaf bleidleisio a allai gynnig cymorth pe byddai angen cymorth, addasu deunyddiau etholiadol i lefel o ddealltwriaeth ar gyfer pobl ag anhawster dysgu, a darparu gwybodaeth am beth fydd angen ar y diwrnod, sut i gyrraedd yr orsaf bleidleisio a beth i'w ddisgwyl y tu mewn i'r orsaf bledleisio (Hees et al., 2017).

6.17 Gellid gwella profiadau pleidleiswyr gan awdurdodau lleol ledled Cymru drwy roi mwy o ystyriaeth i nodi adeiladau addas i'w defnyddio fel mannau pleidleisio,

gwneud addasiadau yn ôl yr angen a gweithio gyda grwpiau lleol a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl perthnasol i sicrhau eu bod yn ystyried lleoliadau a chynllun o safbwynt pobl anabl sydd ag amryw amhariadau a chyflyrau iechyd.

**Addasiadau ac ymyriadau i wella hygyrchedd**

6.18 Mae nifer o addasiadau y gellid eu gwneud i orsafoedd pleidleisio er mwyn gwneud y broses o bleidleisio yn y cnawd yn gwbl hygyrch.

6.19 Gall addasiadau posibl gynnwys sicrhau bod yr holl orsafoedd pleidleisio mewn lleoliadau sy'n hygyrch â phob dull o deithio a lle mae parcio hygyrch ar gael; sicrhau mynediad heb risiau a llawrydd i bob gorsaf bleidleisio a llwybr gwastad a di-rwystr drwy'r orsaf bleidleisio, gan gynnwys at y blwch pleidleisio a'r allanfa; a chreu prosesau i ymdrin â chiwiau ar gyfer y rhai y mae angen hynny arnynt.

6.20 Mae gweithdrefnau pleidleisio, ynghyd â dylunio a defnyddio papurau pleidleisio ac offer ategol mewn gorsafoedd pleidleisio, yn ddimensiynau pwysig o hygyrchedd i bobl anabl. Mae pleidleiswyr dall neu bleidleiswyr ag amhariad golwg mewn perygl arbennig o fethu â defnyddio pleidleisiau printiedig a deunydd etholiadol arall sy'n hanfodol i gyfranogi'n effeithiol mewn prosesau etholiadol (Fleming, 2009).

6.21 Dylid parhau i ddarparu'r ddyfais pleidleisio cyffyrddol i bleidleiswyr dall a rhannol ddall, er y dylid sicrhau bod y dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol a ddarperir i orsafoedd pleidleisio yn briodol ar gyfer hyd a maint y papurau pleidleisio ym mhob etholiad unigol. Gallai'r cyfuniad o ddyfais pleidleisio cyffyrddol a dyfais sain neu offer eraill helpu i sicrhau bod pleidleiswyr dall a rhannol ddall yn gallu pleidleisio heb gymorth, a chan hynny, yn annibynnol ac yn gyfrinachol.

6.22 Dylid ystyried lled ac uchder y bythau pleidleisio, a darparu dewisiadau hygyrch, er mwyn sicrhau bod bythau pleidleisio yn addas ar gyfer pobl mewn cadair olwyn a'r rhai sydd ag amhariadau symudedd. Hefyd, dylai'r holl wybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch, yn ogystal â mewn sawl iaith wahanol.

6.23 Ni ddylid ystyried pleidleisio o bell fel dewis arall rhwydd yn lle pleidleisio yn y cnawd, oherwydd bod yn well gan lawer o bobl, gan gynnwys pobl anabl, bleidleisio yn y cnawd. Er hynny, mewn llawer o amgylchiadau, gallai pleidleiswyr ddewis

pleidleisio o bell oherwydd materion mynediad, ac mae ffyrdd y gellir ehangu a gwella pleidleisio o bell o bob math i sicrhau'r hygyrchedd gorau bosibl.

6.24 Mae gorsafoedd pleidleisio symudol (h.y., dod â blychau pleidleisio i fannau preswyl pobl) yn ddewis poblogaidd yn rhyngwladol, gan gynnwys yn y DU, Ewrop ac UDA. (Y Comisiwn Etholiadol, 2021; van Hees et al, 2019; Schur et al, 2017). Yr awgrym mwyaf ymarferol ynglŷn â phleidleisio symudol yw y dylai cynlluniau o'r fath dargedu llety lle mae sawl etholwr a allai ei chael hi'n anodd mynd i orsaf bleidleisio (er enghraifft, ysbytai, cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a llety gwarchod).

6.25 Yn yr un modd â gwybodaeth cyn yr etholiad, dylai pleidleisiau drwy'r post, a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â phleidleisio drwy'r post, fod mewn fformatau hygyrch yn ogystal â sawl iaith. Dylid ategu hyn â gwybodaeth ar-lein ar ffurf testun, sain a fideo, gyda fideos sydd wedi eu haddasu i wahanol ieithoedd gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, a chyda chapsiynau caeedig ar gael.

6.26 Dylid cymryd camau i sicrhau bod y rhai sy'n pleidleisio o bell yn gallu gwneud hynny'n breifat ac yn annibynnol yn hytrach na dibynnu ar eraill am gymorth.

6.27 Mae'n hanfodol gwneud newidiadau angenrheidiol rhwng etholiadau wrth wella canlyniadau i bobl anabl.

6.28 Dylid archwilio gorsafoedd pleidleisio am faterion hygyrchedd a dylai unrhyw broblemau a nodir arwain at atebion a fydd yn cael gwared ar rwystrau. Mae'n debygol y bydd costau ymlaen llaw ar gyfer hyn, ond mae'n hanfodol i gyflawni system pleidleisio hygyrch.

6.29 Dylai holl staff gorsafoedd pleidleisio gael eu hyfforddi i fod yn ymwybodol o anghenion posibl etholwyr, ac i reoli unrhyw addasiadau ar ddiwrnod yr etholiad. Hefyd, dylid cynnal ymgyrchoedd addysg dinesig, ar gyfer y cyhoedd a rhai sydd wedi eu targedu'n benodol ar gyfer pobl anabl, er mwyn gwneud etholwyr yn ymwybodol o'u hawl i bleidleisio yn ogystal â'u hysbysu am y broses o wneud hynny. Dylai'r rhai a anelir at bleidleiswyr anabl gael eu cynnal mewn cydweithrediad â grwpiau eiriolaeth.

6.30 Dylid monitro addasiadau i bob agwedd ar y system bleidleisio yn barhaus er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd a nodi unrhyw ganlyniadau negyddol anfwriadol.

**Diwygio etholiadol**

6.31 Gallai newidiadau posibl i’r system etholiadol wella’r gallu i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd hefyd a chryfhau ymgysylltiad pleidleiswyr a’r nifer sy’n pleidleisio, gan gynnwys ymhlith pobl anabl.

6.32 Gallai newidiadau gynnwys llacio’r cyfyngiadau ynghylch pryd a lle y byddai’n ofynnol i bleidleiswyr bleidleisio (Peixoto Gomes et al., 2022); cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, neu ganiatáu i bleidleiswyr gofrestru i bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio; a symud oddi wrth y Cyntaf i’r Felin i system bleidleisio amgen, fwy cyfrannol.

6.33 Mae’n bosibl y byddai gallu dewis gorsaf bleidleisio, yn hytrach na chael un wedi ei neilltuo, yn caniatáu i bleidleiswyr anabl ddewis eu gorsaf bleidleisio yn seiliedig ar y graddau y mae pob lleoliad yn gweddu i’w hanghenion. Gallai’r gallu i bleidleisio ar ddiwrnodau lluosog ganiatáu gwelliannau tebyg i fynediad hefyd, oherwydd y byddai gan bleidleiswyr anabl fwy o hyblygrwydd mewn theori i ddewis yr amseroedd sydd fwyaf addas iddynt, neu, er enghraifft, amseroedd tawelach o’r dydd neu’r wythnos.

6.34 I bobl anabl, mae dileu’r gofyniad i gofrestru ymlaen llaw yn debygol o hwyluso’r broses o bleidleisio, oherwydd, ar gyfer pobl anabl yn benodol, gallai haenau o fiwrocratiaeth fod yn rhwystrau i gyfranogiad etholiadol (Matsubayashi ac Ueda, 2014). Yn ogystal, o ystyried y rhwystrau digidol sy'n wynebu llawer o bobl anabl a phobl ag anhawsterau dysgu, dylid gwneud y broses o gofrestru mor hygyrch â phosibl gan nad yw’r broses o gofrestru ar-lein yn opsiwn i rai pobl anabl (Good Things Foundation, 2024).

6.35 Gallai systemau pleidleisio eraill, megis Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, sy’n gofyn am newid yn y dull o bleidleisio ar ran yr etholwr (e.e., yr angen i ddewis nifer o ymgeiswyr neu ddefnyddio rhifau yn hytrach na chroesau), greu materion hygyrchedd. Os bydd unrhyw gynghorau yng Nghymru yn dewis newid o’r Cyntaf i’r Felin i Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau lleol, o dan bwerau Deddf Llywodraeth Leol (Etholiadau) 2021, dylid cynnwys hygyrchedd o’r cychwyn cyntaf. Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau o’r fath heb sicrhau yn gyntaf fod addasiadau rhesymol ar waith i ganiatáu i bobl anabl ddefnyddio’r systemau hyn yr un ffordd ag eraill, neu’n haws. Bydd hyn yn gofyn am addysg a hyfforddiant yn

ogystal ag asesiad cyfanwerthol o addasiadau i'r wybodaeth a ddarperir i bleidleiswyr, ac i orsafoedd pleidleisio a dulliau pleidleisio o bell.

## 7. Argymhellion

7.1 Dylid darparu gwybodaeth cyn etholiad a cheisiadau a phleidleisiau drwy'r post mewn fformatau hygyrch. Mae hyn yn cynnwys fersiynau hawdd eu deall a rhai a lluniau; print bras; sain a fideo; papur pleidleisio ar gael mewn lliwiau heblaw du a gwyn; fersiynau braille a chyffyrddol a thestun electronig. Hefyd, dylai deunydd cyn yr etholiad fod ar gael ar-lein ar ffurf testun, sain a fideo, gyda fideos sydd wedi eu haddasu i wahanol ieithoedd gan gynnwys iaith arwyddion gyda chapsiynau caeedig ar gael.

7.2 Dylai pob gorsaf bleidleisio fod â chyfuniad o ddyfais pleidleisio cyffyrddol a dyfais sain neu offer eraill er mwyn helpu i sicrhau bod pleidleiswyr dall a rhannol ddall yn gallu pleidleisio heb gymorth, a chan hynny, yn annibynnol ac yn gyfrinachol.

7.3 Dylid datblygu ymgyrchoedd neu fentrau addysg a gwybodaeth gynhwysol i wella gwybodaeth pleidleiswyr am y system a'u hawliau pleidleisio.

7.4 Dylai pobl anabl gael crynodeb o'r hyn i'w ddisgwyl ar ddiwrnod yr etholiad.

7.5 Dylai ymgynghoriadau gael eu cynnal gyda phobl anabl i lywio'r broses o ddewis safleoedd ac adeiladau addas ar gyfer gorsafoedd pleidleisio.

7.6 Dylid sicrhau bod yr holl orsafoedd pleidleisio mewn lleoliadau hygyrch gyda pharcio anabl yn cael ei ddarparu, digon o seddi ar gael mewn ciwiau a bod cyfleoedd i 'neidio'r ciw' os oes angen. Dylid addasu bythau pleidleisio hefyd i sicrhau eu bod yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai sydd ag amhariadau symudedd.

7.7 Dylai pob gorsaf bleidleisio gael goleuadau da a chwyddwydr ar gyfer y rhai sydd angen cymorth gweledol ychwanegol.

7.8 Dylai pob aelod o staff pleidleisio gael eu hyfforddi'n gywir i adnabod ac ymateb i anghenion posibl yr holl etholwyr.

7.9 Dylai Llywodraeth Cymru wneud ystyriaethau pellach ynghylch diwygio etholiadol ehangach gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gofrestru pleidleiswyr yr un diwrnod ac yn awtomatig, systemau pleidleisio eraill a phleidleisio hyblyg.

## 8. Argymhellion

8.1 Dylid darparu gwybodaeth cyn etholiad a cheisiadau a phleidleisiau drwy'r post mewn fformatau hygyrch. Mae hyn yn cynnwys fersiynau hawdd eu deall a darluniedig; print bras; sain a fideo; papur pleidleisio ar gael mewn lliwiau heblaw du a gwyn; fersiynau braille a chyffyrddol a thestun electronig. Hefyd, dylai deunydd cyn yr etholiad fod ar gael ar-lein ar ffurf testun, sain a fideo, gyda fideos sydd wedi eu haddasu i wahanol ieithoedd gan gynnwys iaith arwyddion gyda chapsiynau caeedig ar gael.

8.2 Dylai pob gorsaf bleidleisio fod â chyfuniad o ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy a dyfais sain neu offer eraill er mwyn helpu i sicrhau bod pleidleiswyr dall a rhannol ddall yn gallu pleidleisio heb gymorth, a chan hynny, yn annibynnol ac yn gyfrinachol.

8.3 Dylid datblygu ymgyrchoedd neu fentrau addysg a gwybodaeth cynhwysol i wella gwybodaeth pleidleiswyr am y system a'u hawliau pleidleisio.

8.4 Dylai pobl anabl gael crynodeb o'r hyn i'w ddisgwyl ar ddiwrnod yr etholiad.

8.5 Dylai ymgynghoriadau gael eu cynnal gyda phobl anabl i lywio'r broses o ddewis safleoedd addas ar gyfer gorsafoedd pleidleisio.

8.6 Dylid sicrhau bod yr holl orsafoedd pleidleisio mewn lleoliadau hygyrch gyda pharcio hygyrch yn cael ei ddarparu, digon o seddi ar gael mewn ciwiau a bod cyfleoedd i 'neidio'r ciw' os oes angen. Dylid addasu bythau pleidleisio hefyd i sicrhau eu bod yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai sydd ag amhariadau symudedd.

8.7 Dylai pob gorsaf bleidleisio fod â goleuadau da a chwyddwydr i'r rhai y mae angen gwelliannau gweledol ychwanegol arnynt.

8.8 Dylai pob aelod o staff pleidleisio gael eu hyfforddi'n gywir i adnabod ac ymateb i anghenion posibl yr holl etholwyr.

8.9 Dylai Llywodraeth Cymru wneud ystyriaethau pellach ynghylch diwygio etholiadol ehangach gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gofrestru pleidleiswyr yr un diwrnod ac yn awtomatig, systemau pleidleisio eraill a phleidleisio hyblyg.

## 9. Cyfeiriadau


Atkinson, V., Aaberg, R. a Darnolf, S. (2017) 'Disability Rights and Election Observation: Increasing Access to the Political Process'. Nordic Journal of Human Rights 35 (4) tt.375–391.

Beaufort Research (2020) *Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: ymchwil archwiliol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 13/2020.

Belt, R. (2016) 'Contemporary Voting Rights Controversies Through the Lens of Disability'. *Stanford Law Review* 68, rhif 6, tt. 1491–1550.

Swyddfa'r Cabinet (2013) 'About Individual Electoral Registration' Guidance, yn: https://www.gov.uk/government/publications/about-individual-electoral-registration-ier.

Swyddfa'r Cabinet (2018) Call for Evidence: Access to Elections. Government response, Cabinet Office: Llundain.

Clarke, H.; Sanders, D.; Stewart, M. a Whiteley, P. (2006) 'Taking the Bloom off New Labour's Rose: Party Choice and Voter Turnout in Britain, 2005'. Journal of Elections, Public Opinion & Parties 16 (1): 3–36.

Y Comisiwn Etholiadol (2017) 'Elections for Everyone: Experiences of People with Disabilities at the 8 June 2017 UK Parliamentary General Election' yn: https://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0008/237194/Accessibility-report-call-for-evidence.pdf.

Y Comisiwn Etholiadol (2018) 'May 2018 Voter Identification Schemes: Findings and Recommendations', yn: ID Pilots—evaluation report (electoralcommission.org.uk)

Y Comisiwn Etholiadol (2021) 'Report on the Future of Voting'. https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/agweddaur-cyhoedd/ymchwil-moderneiddio-etholiadau.

Evans, E., a Reher, S. (2020) "Disability and Political Representation: Analysing the Obstacles to Elected Office in the UK." International Political Science Review.

Fiala-Butora, J. Stein, M.E. a Lord, J.E., "The Democratic Life of the Union: Toward Equal Voting Participation for Europeans with Disabilities" (2014). Faculty Publications. 1673.

Friedman, C. (2018) '"Every Vote Matters": Experiences of People with Intellectual and Developmental Disabilities in the 2016 United States General Election'. *Review of Disability Studies: An International Journal* 14, rhif 1: 1–13.

Gastil, John (2000) The political beliefs and orientations of people with disabilities. *Social Science Quarterly*, Cyf. 81(2), tt. 588–603.

Green, D. a Gerber, A. (2004) *Get out the vote: How to increase voter turnout*. Brookings Institution Press, Washington.

Hees, S.G.M van, Boeije, H.R. a de Putter, I. (2019) 'Voting Barriers and Solutions: The Experiences of People with Disabilities during the Dutch National Election in 2017'. *Disability & Society,* Cyf. 34(5), tt. 819–36.

Hunt, M. a Nickson, S. (2019) 'Democratic Renewal: Evidence Synthesis to Support Local Government Electoral Reform'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2019.

Johnson, A.A. a Powell, S. (2020) 'Disability and Election Administration in the United States: Barriers and Improvements'. *Policy Studies* 41, rhif 2–3: 249–70.

Keeley, H.; Redley, M.; Holland, J. a Clare, I. (2008) 'Participation in the 2005 general election by adults with intellectual disabilities', *Journal of Intellectual Disability Research*, Cyf. 52(3), tt. 175–181.

Landwehr C. ac Ojeda, C. (2021) Democracy and depression: a cross-national study of depressive symptoms and nonparticipation. American Political Science Review. Cyf. 115(1), tt. 323–330.

Lord, J.E.; Stein, M.A. a Fiala-Butora, J. (2014) 'Facilitating an Equal Right to Vote for Persons with Disabilities' Journal of Human Rights Practice Cyf. 6(1), tt. 115–139.

Manktelow, N.; Chadwick, D.D.; Brewster, S. a Tilly, L. (2023) 'The perspectives of people with intellectual disabilities on their experience of voting in UK general elections', *Journal of Applied Research in Intellectual Disabilities*, Cyf. 36, tt. 629–640

Mason (2016) 'Nearly 800,000 Names Axed from Voter Register, Official Figures Show', The Guardian (Cafwyd yr wybodaeth: 24 Chwefror 2016).

Matsubayashi, T. ac Ueda, M. (2014) 'Disability and Voting'. *Disability and Health Journal* 7, rhif 3: 285–91.

Mattila, M. (2022) 'Health and Disability Gaps in Political Engagement: A Short Review'. Yn: Besley, T. a Bucelli, I. (Golygyddion) *Wellbeing: Alternative Policy Perspectives*, LSE Public Policy Review Series, LSE Press: Llundain, tt. 167–184

Mattila, M. a Papageorgiou, A. (2016) Disability, Perceived Discrimination and Political Participation, *International Political Science Review*, Cyf. 38(5), tt. 505–519.

Mattila, M. a Rapeli, L. (2018) Just sick of it? health and political trust in Western Europe. European Journal of Political Research. Cyf. 57(1), tt. 116–134.

Palese, M. a Terry, C. (2018) 'A Sledgehammer to Crack a Nut: The 2018 Voter ID Trials', Electoral Reform Society, at: https://www.electoral-reform.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/2018-Voter-ID-Trials.pdf.

Peixoto Gomes, L.; Downe, J. a Robert, M. (2022) 'Diwygio Cyfraith ac Arferion Etholiadol'. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2021.

Priestley, M.; Stickings, M.; Loja, E.; Grammenos, S.; Lawson, A.; Waddington, L. a Fridriksdottir, B. (2016) 'The Political Participation of Disabled People in Europe: Rights, Accessibility, and Activism.', *Electoral Studies*, Cyf. 42, tt.1–9

Reher, Stefanie. 2018. 'Mind This Gap, Too: Political Orientations of People with Disabilities in Europe.' *Political Behavior*, Cyf. 42, tt.791–818.

Rojas, A. J. a Muller, D. A. (2014) 'Early Voting in Australian Federal Elections: Causes and Consequences'. Australian Electoral Commission.

Royal National Institute for the Blind (2021) 'Turned Out: How Blind and Partially Sighted People Are Still Waiting to Vote in Secret'.

Royal National Institute of Blind People (2017) 'Turned Out 2017: Why the UK Voting System must Change so Blind and Partially Sighted Voters can be in Sole Control of their Right to a Secret Ballot'

Schur, L.; Shields, T.; Douglas, K. a Schriner, K. (2002) 'Enabling democracy: Disability and voter turnout', *Political Research Quarterly*, Cyf. 55(1), tt. 167–190.

Schur, Lisa, Todd Shields a Kay Schriner (2003) Can I make a difference? Efficacy, employment, and disability. *Political Psychology* Cyf. 24(1), tt. 119–149.

Schur, L. ac Adya, M. (2013) 'Sidelined or Mainstreamed? Political Participation and Attitudes of People with Disabilities in the United States'. Social Science Quarterly 94 (3): 811–839.

Schur, L., Ameri, M. ac Adya, M. (2017) 'Disability, Voter Turnout, and Polling Place Accessibility'. *Social Science Quarterly* 98, rhif 5 (2017): 1374–90.

Söderlund P. a Rapeli, L. (2015) 'In sickness and in health: personal health and political participation in the Nordic countries', *Politics and the Life Sciences*. Cyf. 34(1), tt. 28–43.

Stanford, B. (2018) 'The 2018 English Local Elections ID Pilots and the Right to Vote: A Vote of (no) Confidence?' European Human Rights Law Review 23(6) tt. 600–613

Teglbjærg, J. H.; Mamali, F. C.; Chapman M. a Dammeyer, J. (2022) The disability gap in voter turnout and its association to the accessibility of election information in EU countries'. Disability & Society, 37:8, 1342–1361

Waltz. M. a Schippers, A. (2021) 'Politically disabled: barriers and facilitating factors affecting people with disabilities in political life within the European Union', *Disability & Society*, Cyf. 36(4), tt. 517–540

Llywodraeth Cymru (2021) 'Drws ar Glo: Rhyddhau bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru y tu hwnt i COVID-19', Llywodraeth Cymru: Caerdydd.

Sefydliad Iechyd y Byd (2011) 'World Report on Disability'. Genefa: Sefydliad Iechyd y Byd.

Clark, A. a James, T. (2016) *An Evaluation of Electoral Administration at the EU Referendum: Report prepared for the Electoral Commission*.